
Teitl y cyfarfod: **Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus**

Dyddiad y Cyfarfod: **23 Mawrth 2023**

Amser y cyfarfod: **9.00-14.30**

Lleoliad: **Microsoft Teams**

Ymunwch ar eich cyfrifiadur, ap symudol neu ddyfais ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymunwch ar y we](#)

Neu ffoniwch (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,,510681277#](tel:+442921055545510681277)

Amser

Eitem

**9.00
(5 munud)**

1. Agor y cyfarfod

- Croeso
- Datgan buddiannau
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**9.05
(5 munud)**

**2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu
2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a
gynhaliwyd ar 27 Ionawr
2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus**

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.

**9.10
(5 munud)**

3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

**9.15
(10 munud)**

4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'R sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y papur: 23-03-B05

9.25
(20 munud)

5. Adroddiadau Diweddarau gan y Pwyllgorau a'r Fforymau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 9 Mawrth

Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 21 Chwefror

Cyfeirnod y papur: 23-03-B06

Y Pwyllgor Cyllid – 9 Chwefror a 7 Mawrth

Cyfeirnod y papur: 23-03-B07

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - 15 Mawrth

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 7 Chwefror

Cyfeirnod y papur: 23-03-B08

Diweddariadau gan y Fforymau

Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y papur: 23-03-B09

Fforwm Pysgodfeydd Cymru

Cyfeirnod y papur: 23-03-B10

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru – dim papur (cynnal cyfarfod 16 Mawrth)

Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – dim papur (cynnal cyfarfod 14 Mawrth)

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd a thu hwnt.

9.45
(15 munud)

6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol

Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid

Cyflwynydd: Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes

Crynodeb: NODI'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 23-03-B11

10.00
(15 munud)

Egwyl

10.15
(30 munud)

7. Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol yn ffurfiol 2023-2030

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynwyr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a

Datblygu Corfforaethol; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth

Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni

Crynodeb: CYMERADWYO Cynllun Corfforaethol 2023-2030

Cyfeirnod y papur: 23-03-B12

10.45
(15 munud)

Egwyl

11.00
(30 munud)

8. Diweddariad ar yr Eog

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynydd: Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd

Crynodeb: TRAFOD Adroddiad Tystiolaeth ar yr Eog

Cyfeirnod y papur: 23-03-B13

11.30
(20 munud)

9. Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol,

Perfformiad ac Asesu Strategol; Sarah Williams, Pennaeth

Strategaeth Gorfforaethol a Rheoli Rhaglenni

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Cyfeirnod y papur: 23-03-B14

11.50
(40 munud)

10. Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23 a Thrafodaeth

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol,

Shaheen Sutton, Arbenigwr EDI; Lyn Williams, Cynghorydd

Arbenigol, Rheoli Pobl

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23, gan gynnwys Adroddiad y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cyfeirnod y papur: 23-03-B15

12.30
(15 munud)

11. Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyfeirnod y papur: 23-03-B16

12.45
(60 munud)

Cinio

13.45
(5 munud)

12. Adolygiad o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 23-03-B18

13.50
(5 munud)

13. Cylch Gorchwyl

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, Pwyllgor Ystadau Tir, a'r Pwyllgor Cyllid

Cyfeirnod y papur: 23-03-B19

13.55
(5 munud)

14. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 23-03-B20

14.00
(5 munud)

15. UNRHYW FATER ARALL

Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd

14.05
(25 munud)

Sesiwn Holi ac Ateb Cyhoeddus

14.30

Diwedd y Cyfarfod

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Gwesty'r Metropole, Llandrindod a Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	27 Ionawr 2023
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Karen Balmer Julia Cherrett (9:30 i 10:00; 11:30 i 12:00) Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (yr holl eitemau) Rob Bell, Pennaeth Cyllid (eitemau 6 a 7) Russell De'Ath, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050 (eitem 8)
Arsylwyr CNC:	Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru (yr holl eitemau) Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat (yr holl eitemau) Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli'r Rhaglen (yr holl eitemau)
Arsylwyr cyhoeddus:	Helen Pittaway Steve Griffiths, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) Tom Tibbits, Ffrindiau Afon Gwy Uchaf Kim Waters, Afonydd Cymru Lloyd Evans Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Datganiadau:	<ul style="list-style-type: none">Dr Rosie Plummer – Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd â rhyngweithiadau eang yn cynnwys (o ran bod yn berthnasol i'r agenda hon) dynodi tirweddau, afonydd Ardal Cadwraeth

Arbennig (ACA) a'r Parth Morol. Ymddiriedolwr Plantlife – mae Plantlife yn cydweithredu ar y prosiect Natur am Byth a chaiff grantiau gan CNC.

- Yr Athro Steve Ormerod – Aelod o ddwy o Ymddiriedolaethau Natur Cymru (dim dylanwad ar bolisi); Is-lywydd yr RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Cymrawd y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (dim dylanwad ar bolisi); buddiant o ran gwaith ymchwil gwyddonol yn ymwneud ag ansawdd dŵr trwy gyfrwng Prifysgol Caerdydd.
- Yr Athro Calvin Jones - Aelod o Fwrdd Rheoli Skyline sydd â buddiannau ar yr ystâd a reolir gan CNC.
- Geraint Davies – Aelod (dim dylanwad ar bolisi): RSPB Cymru; yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt; Aelod o grŵp cynghori sy'n gweithio ar gyfeiriad Ystad Llyn Efyrynwy yn y dyfodol ac sydd â thir oddi mewn i SoDdGA).
- Mark McKenna – Prif Weithredwr Down to Earth sydd â chais chynllunio cyfredol oddi mewn i ACA.
- Karen Balmer – Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Groundwork Gogledd Cymru (lleoliad Wrecsam ar gyfer Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni).

Ymddiheuriadau: Julia Cherrett (10:00 i 11:30)

Ysgrifenyddiaeth: Jocelyn Benger
Natalie Williams
Deborah Lee

Eitem 1: Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Esboniodd y modd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Gwnaed datganiadau o fuddiant yn ystod y cyfarfod, fel y nodir uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a Gynhaliwyd ar 16 Tachwedd

2. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd a chytunwyd arnynt.

2B. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a Gynhaliwyd ar 17 Tachwedd

3. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd a chytunwyd arnynt.

2C. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

4. Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

5. Cyflwynodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phenodi aelodau'r Bwrdd. Roedd y broses yn tynnu tua'i therfyn a byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud cyn bo hir ynglŷn â'r penodiadau terfynol.

6. Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau gyda'r Gweinidog ynglŷn â'r gyllideb a materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

7. Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ynglŷn â'r adroddiad ysgrifenedig.
8. Arweiniodd y rhybudd tywydd Melyn a nodwyd yn yr adroddiad at gyfnod estynedig o dywydd garw a llifogydd. Ymatebodd y timau ymateb yn dda i hyn. Yn ôl y rhagolygon, bydd mis Chwefror yn fis gwlyb. Oherwydd hyn a'r gweithredu diwydiannol gan Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) ac eraill, mae CNC yn ymbaratoi i ymateb i ddigwyddiadau.
9. Nodwyd penodiad Prif Gyngorydd Gwyddonol newydd Cymru, sef yr Athro Jas Pal Badyal FRS, ac esboniwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC) yn dymuno bod mewn cyswllt ag ef.
10. Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd sylwadau ynglŷn â chynnwys yr Adroddiad. Trafodwyd yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) yng nghyfarfod preifat y Bwrdd a phwysleisiwyd pa mor bwysig yw dysgu yn sgil y broses hon. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r canlynol: yr oedi cyn cynnal adolygiad, graddfa arfaethedig y cynnydd a'r awgrym yn y cyfryngau bod y broses yn cael ei defnyddio fel dylanwad ar weithgareddau annerbyniol. Cadarnhawyd nad dyna oedd bwriad na diben y broses, a chydabuwyd y dylid cynnal adolygiadau rheolaidd yn y dyfodol er mwyn osgoi unrhyw gynnydd mawr.
11. Esboniwyd pa mor bwysig yw sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â chostau trwy gyfrwng y drefn drwyddedu. Nododd aelodau'r Bwrdd fod yr Adroddiad yn tynnu sylw at faterion byd-eang yn ymwneud â bioamrywiaeth a chyfeiriwyd at drafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod preifat y Bwrdd ynglŷn â'r risg fyd-eang sylweddol i bobl yn y dyfodol, materion llygredd, newid hinsawdd, y brys sy'n perthyn i'r mater, a pha mor bwysig yw cyllid priodol, gydag incwm o du codi tâl yn elfen hynod bwysig o'r cyllid hwnnw.
12. Soniwyd am yr effaith y byddai codi mwy am drwyddedau yn ei chael ar y gymuned ffermio, yn enwedig o ran gwaredu dip defaid. Tynnwyd sylw at y straen sydd ar ysgwyddau'r gymuned ffermio ar hyn o bryd.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddariadau gan Bwyllgorau a Fforymau

13. Rhoddodd Karen Balmer, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC), y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr a 13 Ionawr. Cynhwyswyd crynodeb o gyfarfod 15 Rhagfyr yn y papur. Roedd y cyfarfod ychwanegol ar 13 Ionawr ynglŷn â seiberddiogelwch wedi cael ei gynnal, ac arweiniodd at gam gweithredu i'r Tîm Gweithredol o ran cynnal dadansoddiad o fylchau.
14. Nododd yr Athro Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC), y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 21 Chwefror.
15. Rhoddodd Syr David Henshaw, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr. Cynhwyswyd crynodeb o'r cyfarfod yn y papur. Tynnwyd sylw at ddiweddariadau ynglŷn â'r Rhaglen Trawsnewid Busnes a'r cynnydd mewn perthynas â Chaffael a Chontractau (Fframwaith Cyllido).
16. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr. Adolygwyd ac ystyriwyd y Rhaglen Gyfalaf. Braff oedd gweld rhai o'r cynlluniau a gyflawnwyd yn llwyddiannus yn Llanfair TH a'r Bont-faen, ac yn arbennig felly yn Llyn

Tegid lle cafwyd adborth cadarnhaol gan y gymuned. Trafodwyd Cynllun Rhydaman; bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y cynllun hwn gyda'r Pwyllgor Cyllid. Mae gwaith ar brosiect Stryd Stephenson ar fin cychwyn.

17. Rhoddodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir (LEC), y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 19 Ionawr. Dyma Bwyllgor newydd a sefydlwyd er mwyn cynnig sicrwydd ynglŷn â'r Ystad a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a reolir gan CNC. Bu'r cyfarfod cyntaf yn llwyddiannus ac roedd pawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yr Ystad. Croesawyd darn cyflwyniadol ynghyd â chyflwyniad diddorol yn sôn am y Rhaglen Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy. Cyflwynwyd amlinelliad drafft o gwmpas a dull y Strategaeth Hamdden. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ymgysylltu mwy ynglŷn â'r cwmpas a chynigiwyd y dylid ymestyn yr amserlen er mwyn hwyluso hyn. Cynigiwyd y dylai'r Bwrdd drafod hyn drachefn yn gynnar yn 2024, er mwyn ei gymeradwyo.
18. Ystyriodd y Bwrdd y cynnig i ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Hamdden. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn ag ymestyn y cyfnod. Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir y sail resymegol mewn perthynas â sicrhau proses ymgysylltu lawn. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i ymestyn yr amserlen.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr amserlen estynedig ar gyfer y Strategaeth Hamdden gerbron y Bwrdd llawn ym mis Ionawr, er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau.

19. Argymhellodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC), y dylai'r Pwyllgor Ystad Tir graffu ar ddiweddariadau Llesiant, lechyd a Diogelwch yn ymwneud â'r cyhoedd. Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig hwn.

PENDERFYNIAD: Dylai'r Pwyllgor Ystad Tir graffu ar ddiweddariadau Llesiant, lechyd a Diogelwch yn ymwneud â'r cyhoedd.

20. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau, y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr. Ad-drefnwyd yr agenda yn dilyn y Rhaglen Bobl o dan arweiniad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol, a fyddai'n hwyluso'r dasg o adrodd am gerrig milltir ac elfennau dibynnol. Gwnaed cynnydd da o ran arweinyddiaeth a chafwyd diweddariad ynglŷn â'r Rhaglen Trawsnewid Busnes. Adolygwyd y diweddariad Llesiant, lechyd a Diogelwch, ac roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod CNC wedi llwyddo i ennill achrediad ISO45001 drachefn. Diolchwyd i bawb a oedd yn gysylltiedig â hyn. Cynhaliwyd archwiliad dwfn ar y risg o ran Llesiant, lechyd a Diogelwch. Craffwyd ar yr Adroddiad Archwilio ar ymddygiadau gwael ac ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen cyflawni'r gwaith ar reoli a'r gwaith ar rolau a chyfrifoldebau aelodau'r tîm. Cafwyd trafodaeth dda ynglŷn â chwsmeriaid; er, nodwyd na fyddai modd gwella'r wybodaeth sydd ar gael hyd nes y rhoddir system TGCh briodol ar waith.
21. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr angen am wybodaeth am gwsmeriaid o safbwynt TGCh. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (CCC) fod y rhaglen Datblygu ac Arloesi wedi cael ei gohirio oherwydd adnoddau. Nodwyd y canlyniadau anfwriadol yn hyn o beth; er, cydnabuwyd y bu'n rhaid gohirio rhai pethau. Croesawyd cyfraniad y Bwrdd ynglŷn â'r blaenoriaethau. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau fod trafodaeth fanwl wedi'i chynnal yn ystod cyfarfod y pwyllgor hwnnw, lle cydnabuwyd y risg sylweddol i enw da CNC yn hyn o beth.

22. Nododd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Chwefror.
23. Rhoddodd Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, y ddiweddaraf i'r Bwrdd. Cymerwyd yn ganiataol bod y papur wedi cael ei ddarllen. Mae'r Is-grŵp yn parhau i gyfarfod bob mis. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau defnyddiol iawn a chyflwyniadau da, yn arbennig o ran cyflawni mesurau amgen a deall materion yn ymwneud â ffosffadau o safbwynt amaethyddol. Mae'r meysydd yr ystyrir eu trafod yng nghyfarfodydd y dyfodol yn cynnwys ystyried yr amser a gymerir i roi pethau ar waith, ynghyd â chanolbwyntio ar ffosffadau a nitradau.
24. Cymerodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, fod y papurau wedi cael eu darllen a nododd pa mor bwysig yw'r papurau hyn o ran cynnig gwell syniad i'r cyhoedd o'r materion a'r gwaith sydd ar droed. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai modd defnyddio'r sillafiad Cymraeg wrth gyfeirio at leoedd.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth newid y modd y caiff 'Faenol Estate' ei sillafu ym mhapur diweddarau Fforwm Pysgodfeydd Cymru, gan sicrhau y defnyddir y sillafiad Cymraeg yn y dyfodol wrth gyfeirio at enwau lleoedd.

25. Cymerodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, fod y papur wedi cael ei ddarllen a nododd fod y Fforwm wedi ei gwneud yn bosibl i randdeiliaid gael siarad â swyddogion y llywodraeth. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth. Bydd Cadeirydd y Fforwm yn cyfarfod â'r Gweinidog ymhen pythefnos ac roedd yn edrych ymlaen at gael sôn am waith y Fforwm ac am fynediad yn gyffredinol.
26. Croesawodd y Bwrdd adroddiadau'r fforymau. Argymhellwyd y dylid cynnwys gwybodaeth am waith craffu'r pwyllgorau perthnasol ym mhapurau'r Bwrdd, yn enwedig o ran eitemau i'w cymeradwyo.

Eitem 6: Adroddiad ar Berfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

27. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr eitem hon. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad 30 Tachwedd 2022 ar Berfformiad Ariannol – roedd y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid wedi cael manylion yr adroddiad eisoes. Roedd y sefyllfa o ran incwm ar ddiwedd Tachwedd y tu ôl i'r proffil mewn perthynas â phren, ac mae'r rhagolygon incwm o ran pren wedi cael eu lleihau o £36m i £34m. Disgwylir rhagor o fasnach cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â diwygio'r rhagolygon drachefn. Proseswyd y dyfarniad cyflog ym mis Rhagfyr; llwyddwyd i ddod o hyd i arian ar ei gyfer yn sgil arbedion cyflog a swyddi gwag drwy'r flwyddyn.
28. Mae'r gwariant o flaen y proffil ac mae oddeutu 2% yn fwy nag ydoedd yr adeg hon y llynedd; fodd bynnag, mae yna oddeutu £20m ar ôl i'w wario eleni. Esboniwyd y meysydd sydd mewn perygl o esgor ar orwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r meysydd hyn yn ymwneud â chostau cyfalaf a chostau nad ydynt yn gostau staff, yn bennaf yn y Rhaglen Stiwardiaeth Tir. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau bydd y Rhaglen Stiwardiaeth Tir yn gwario o fewn ei chyllideb. Cynhaliwyd ymarfer gyda'r Tîm Arwain a chyflwynwyd adroddiad yn ei gyloch i'r Tîm Gweithredol; cynhwyswyd crynodeb yn yr adroddiad. Mae'r cyllidebau wedi cael eu lleihau £2.3m. Hyderir y bydd modd dal gafael ar yr £1.8m gan Forests Holidays. Rhagwelir y bydd yna bwysau canolog net o oddeutu £0.5m. Rydym wrthi'n ceisio sicrhau oddeutu £3.5m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer eleni; bydd £1m o'r arian hwn ar gyfer y Rhaglen Mawndiroedd o fewn y Rhaglen

Argyfyngau Natur a Hinsawdd (NaCE). Mae llythyr cynnig grant wedi'i ddrafftio ac wedi'i anfon at y Gweinidog i'w gymeradwyo. Gofynnwyd am £2.5m yn ychwaneg ar gyfer mynd i'r afael â'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd eleni. Pe bai'r cyllid ychwanegol yn cael ei gymeradwyo, nodwyd y byddai cyfanswm y gyllideb ar gyfer eleni yn cynyddu i £241m.

29. Gofynnodd y Pennaeth Cyllid am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer derbyn taliad pensiwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef hyd at £7m, a hefyd am gymeradwyaeth i gyflwyno'r newid dilynol i'r gyllideb. Nodwyd nad oedd y cais hwn wedi'i gynnwys yn y papur a'i fod yn rhan o'r gwaith mantoli ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Disgwylir cael cadarnhad terfynol gan Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y cais gan aelodau'r Bwrdd.

CYMERADWYWYD y taliad pensiwn gan Lywodraeth Cymru a'r cynnydd dilynol yn y gyllideb gyffredinol.

30. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r tîm am eu gwaith caled o ran mantoli'r gyllideb. Nodwyd bod nifer o newidynnau i'w cael, a allai arwain at heriau wrth symud ymlaen. Byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac i Alwad Diweddariad y Bwrdd ym mis Chwefror. Awgrymodd aelodau'r Bwrdd y gallai'r grant Cymunedau Cryf fod wedi arwain at beth llithriant. Holwyd ynglŷn ag effaith clefydau coed ar incwm pren. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau nad oedd clefydau coed yn cael effaith fawr ar incwm gan fod clefydau o'r fath wedi cael eu rheoli ers sawl blwyddyn fel rhan o raglen.

Eitem 7: Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr eitem a chyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr eitem i'w chymeradwyo. Dyma gais blynyddol y craffwyd arno gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd. Esboniwyd mai'r Bwrdd oedd gweinyddwyr yr Ardaloedd Draenio Mewnol, ac felly cyflwynwyd cais am gymeradwyaeth ffurfiol ac awdurdod dirprwyedig fel y nodir yn y papur. Cyflwynwyd trosolwg byr o swyddogaeth Ardaloedd Draenio Mewnol; mae'r swyddogaeth hon yn cynnwys gwaith a wneir ar brif afonydd sydd o fudd i Ardaloedd Draenio Mewnol a'r costau y telir amdanynt trwy godi ardrethi draenio ac ardollau arbennig ar ddefnyddwyr amaethyddol ac awdurdodau lleol.
32. Trafododd yr aelodau yr Ardaloedd Draenio Mewnol a holwyd a oedd digon o staff wedi'u cyflogi yn CNC i gyflawni gwaith yn ymwneud ag Ardaloedd Draenio Mewnol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod staff pwrpasol i'w cael, ond bod gwaith mewn perthynas ag Ardaloedd Draenio Mewnol yn cael ei gyflawni'n bennaf fel rhan o rolau staff. Holwyd a oes cofnod llawn o'r costau yn cael ei gadw, a pha un a yw'r costau'n cael eu hariannu'n llwyr trwy gyfrwng cyllidebau'r Ardaloedd Draenio Mewnol. Esboniodd y Pennaeth Cyllid fod gan bob un o'r Ardaloedd Draenio Mewnol ganolfan gostau ar wahân ar gyfer ailgodi tâl, ond ei bod yn bosibl na thelir yn llwyr am ymdrech y tîm oherwydd maint y praeseptau. Argymhellodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ystyried hyn, yn arbennig yng ngloeuni trafodaethau'r Bwrdd ynghylch sicrhau y caiff costau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn osgoi unrhyw gynnydd mawr sydyn.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ystyried holl gostau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid.

33. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion fel y'u nodir yn y papur.

CYMERADWYWYD ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2023/24.

CYMERADWYWYD y dylid gosod y sêl gyffredin ar Ardrethi Draenio Cymeradwy.

CYMERADWYWYD y dylid dirprwyo cyfrifoldebau'r Bwrdd dros gymeradwyo datganiadau blynyddol i Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Eitem 8: Natur a Ni

Cyflwynydd: Russell De'Ath, Uwch Gyngorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050

34. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Roedd gwaith wedi'i wneud gyda grwpiau anodd eu cyrraedd fel y gellid ychwanegu eu cyfraniad at y cam cyntaf. Bydd y grŵp ymgynghorol yn rhoi adborth ar y broses. Bydd y camau nesaf yn cynnwys paratoi'r weledigaeth er mwyn sicrhau y bydd yn gwir adlewyrchu cyfraniad y cymunedau. Pwysleiswyd nad gweledigaeth CNC mo hon; yn hytrach, gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru yw hi. Bydd Cynulliad Dinasyddion yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf.
35. Cyflwynodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050, y diweddaraf ynglŷn â'r Rhaglen Natur a Ni a'r gwaith gogyfer datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru. Nodwyd y ceir gwall bach yn y papur, lle cyfeirir at atodiad nas cynhwyswyd yn y papur. Bydd yr Adroddiad Cam 2 a chynlluniau'r sesiynau ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion yn cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod.
36. Esboniwyd y cam cyntaf a rhannwyd y naw thema a ddaw i'r amlwg. Disgrifiwyd y bwriad o ddatblygu 'gweledigaeth fach' yn ymwneud â phob un. Rhannwyd enghraifft o ddatganiadau gogyfer y dyfodol. Sefydlwyd y grwpiau ffocws yn benodol er mwyn cynnwys y rhai a oedd yn llai tebygol o ymgysylltu. Cynhaliwyd sioeau teithiol yn yr ardaloedd hynny lle cafwyd yr ymateb lleiaf yn ystod y cam cyntaf. Disgrifiwyd aelodaeth y grwpiau ffocws. Rhannwyd y tri phrif amcan. Cyflwynwyd y datganiadau yn eu cyfanrwydd gerbron aelodau'r grwpiau ffocws er mwyn cael gwybod i ba raddau, yn eu tyb nhw, oedd y datganiadau hynny yn rhan o'u dyfodol. Rhannwyd yr ymatebion, ynghyd ag un o recordiadau sain y grwpiau.
37. Disgrifiwyd y gwaith gogyfer y Cynulliad Dinasyddion arfaethedig. Y nod yw dwyn y gwaith ynghyd i greu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Grŵp Cynghori a fydd yn cynnwys cynghorwyr allanol; yna, bydd tystiolaeth arbenigol yn cael ei thrafod er mwyn datblygu gweledigaeth. Bydd y Cynulliad cyntaf yn cael ei gynnal ar-lein ar 11 Chwefror. Yna, bydd cyfarfodydd 'yn y cnawd' yn cael eu cynnal yn Wreccsam ac Abertawe yn ystod mis Mawrth. Bydd y Cynulliad Dinasyddion yn esgor ar weledigaeth gyffredin ynglŷn â sut ddyfodol y gellid ei gael pan fo'r gymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.
38. Croesawodd aelodau'r Bwrdd gynnwys y cyflwyniad. Holwyd ynglŷn â'r dull o ymdrin â'r cam nesaf a gofynnodd aelodau'r Bwrdd sut byddai'r sylfaen dystiolaeth yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn y broses. Cynigiwyd y dylid bwydo'r canlyniadau a'r weledigaeth i'r Adroddiad nesaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Hefyd, roedd y tîm yn ystyried creu rhwydwaith allanol gyda sefydliadau partneriaeth o ran ymrwymo i fynd i'r afael â rhai o'r camau gweithredu. Nodwyd heriau o ran y farchnad a heriau bydeang, ond byddai dymuniad y cyhoedd i fwrw ymlaen â'r camau hyn yn cael ei bwysleisio. Nodwyd y synergedd rhwng y Cynllun Corfforaethol a'r broses Natur a Ni.

39. Holwyd a fyddai modd sicrhau amrediad o leisiau ledled Cymru. Ystyriwyd y dull o ymdrin â'r opsiynau ymateb. Gofynnwyd am gopïau o'r datganiadau gweledigaeth llawn. Cadarnhawyd y cafwyd cyngor ynglŷn â'r garfan gan Sortiton a'r Cynghorydd Amrywiaeth a Chynhwysiant. Disgrifiwyd cyfansoddiad amrywiol y Cynulliad. Trafodwyd ffyrdd o gynorthwyo'r rhai a oedd yn anos eu cyrraedd. Awgrymwyd y byddai talebau yn ddulliau talu mwy addas mewn rhai achosion, yn enwedig i bobl a oedd yn cael budd-daliadau. Esboniodd yr Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050, y ceisiwyd cyngor gan Sortiton ynglŷn â galluogi pawb i gymryd rhan, a bod yr effaith ar fudd-daliadau wedi cael ei hystyried. Hefyd, roedd gwaith ar y gweill gyda sector y celfyddydau yn ymwneud ag annog pobl i ymgysylltu â'r materion.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050, rannu copïau o'r datganiadau gweledigaeth llawn gyda'r Bwrdd.

40. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y dull o ymgysylltu â Ffermwyr Ifanc, ond pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cyrraedd amrywiaeth eang o ffermwyr a busnesau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yng Nghymru, oherwydd gallai hyn helpu i herio'r dull 'arferol' byd-eang o gynhyrchu bwyd. Soniwyd am gydweddu â'r Datganiadau Ardal. Esboniwyd bod rhaglen Natur a Ni yn gweithio ar lefel genedlaethol, ond ei bod hefyd yn ceisio ymgysylltu ar lefel leol, yn enwedig trwy gyfrwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

41. Trafodwyd y lleoliadau ar gyfer y Cynulliadau Dinasyddion, yn arbennig Campws y Bae ym Mhrifysgol Abertawe. Y farn oedd y byddai hyn yn cynnig cyfle i hyrwyddo trafodaethau ac ysgogi syniadau. Nododd yr Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050, mai Groundwork, Wrecsam fydd y lleoliad ar gyfer gogledd Cymru. Datganodd Karen Balmer fuddiant yn y lleoliad hwn.

42. Trafodwyd cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth a dysgu, yn arbennig gyda gwledydd eraill y DU ac Iwerddon, ond hefyd gyda sefydliadau eraill. Ystyriwyd sut gellid dod â phopeth ynghyd a hefyd ystyriwyd y modd yr oedd pethau'n cydweddu â SoNaRR. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol i ystyried hyn a'r Strategaeth Eirioli.

Eitem 9: Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Thryloywder yng Nghyfarfodydd y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

43. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Trafodwyd y mater hwn sawl gwaith, ac roedd y tîm wedi mynd i'r afael â gwaith ar gyfer ystyried y modd yr eir ati i ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu tystiolaeth i'w chyflwyno gerbron y Bwrdd i'w hystyried.

44. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gyflwyniad yn sôn am ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus. Disgrifiwyd cefndir y mater ac esboniwyd methodoleg yr arolwg a'r ymatebion a gafwyd. Nodwyd mai ymateb cyfyngedig a gafwyd, ac nad oedd yn amrywiol iawn. Mae yna awydd i CNC archwilio cyfryngau eraill ac eithrio Teams. Disgrifiwyd y canlyniadau o ran opsiynau ymgysylltu. Ceir cefnogaeth fawr i'r syniad o gyflwyno cwestiynau gan y cyhoedd ymlaen llaw, rhoi ymateb iddynt yn y cyfarfod a'u cynnwys yn y cofnodion, a hefyd ceir cefnogaeth fawr i'r syniad o gynnal sesiynau lleol ychwanegol ar wahân. Disgrifiwyd awgrymiadau eraill gan yr ymatebwyr, yn arbennig mewn perthynas ag ymgysylltu ar faterion lleol. Ceir cryn archwaeth am wyddoniaeth dinasyddion a thrafodaethau cyhoeddus yn ymwneud â phynciau fel materion cynllunio a buddiannau lleol.

45. Nodwyd bod CNC yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran tryloywder a chraffu cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Bwrdd. O'r herwydd, argymhellwyd y dylid canolbwyntio

ar y meysydd sydd â'r flaenoriaeth fwyaf. Rhannwyd yr argymhellion ynglŷn â hyn. Disgrifiwyd y dull awgrymedig o ymdrin â'r sesiwn Holi ac Ateb. Yn achos cwestiynau a gâi eu derbyn ymlaen llaw ac a oedd yn berthnasol i eitemau'r agenda, gellid eu cynnwys yn y papur, eu hateb a'u cofnodi. Yn achos cwestiynau nad oeddynt yn berthnasol i eitemau'r agenda, gellid eu cyfeirio at y gwasanaeth ymholiadau cyffredinol. O'r herwydd, byddid yn cael gwared â'r elfen 'meic agored' yng nghyfarfodydd y Bwrdd, oherwydd byddai'r cwestiynau'n cael eu hymgorffori yn y cyfarfodydd. Argymhellwyd y gellid pennu cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â gwaith ar Leoedd a gwaith ar Faterion Cyhoeddus cenedlaethol. Ar ôl i'r Bwrdd wneud penderfyniad ynglŷn â'r eitem hon, bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei gyfathrebu i'r cyhoedd.

46. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys y cyflwyniad a'r argymhellion. Nodwyd y tebygrwydd â Natur a Ni. Cydnabuwyd y cyfleoedd i ymgysylltu â lleisiau mwy amrywiol ledled Cymru, a byddai'n bwysig parhau i herio hyn. Tynnwyd sylw at y berthynas rhwng aelodau'r Bwrdd a'u Pennaeth Lle Lleol. Trafodwyd y berthynas a'r cysylltiad â materion lleol ac awgrymwyd y gallai Rhwydwaith yr Ymarferwyr Ymgysylltu ystyried y dull o ymgysylltu ag ardal leol aelodau'r Bwrdd.

47. Trafodwyd y dull o ymdrin â chwestiynau gan y cyhoedd. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n bwysig i'r Bwrdd gael gweld y cwestiynau a'r ymatebion fel yr oeddynt wedi'u cyfeirio atynt. Awgrymwyd y dylai CNC ystyried gofyn i aelodau'r cyhoedd pa bynciau yr hoffent eu trafod gyda'r Bwrdd. Byddai'n well gan y Bwrdd barhau â'r sesiwn Holi ac Ateb gyhoeddus; cytunwyd y dylid gwneud hynny. Yn ychwanegol at hyn, cynigiwyd y dylid datblygu sesiwn ymgysylltu deithiol 'yn y cnawd' a fyddai'n cynnwys y Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd, aelodau Bwrdd Lleol a Phenaethiaid Lleoedd. Gallai hyn roi cyfle i aelodau'r cyhoedd bennu'r agenda ar gyfer eu hardal leol. Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig hwn. Nodwyd y gellid defnyddio'r Datganiadau Ardal i lywio'r sesiynau. Ystyriwyd y dulliau presennol o ymgysylltu yn y cnawd gyda'r Bwrdd, er enghraifft yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol a'r Eisteddfod.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu'r Bwrdd, yn seiliedig ar Leoedd.

48. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gael gweld yr astudiaeth a'r ymchwil desg a luniwyd yn rhyngwladol mewn perthynas â'r modd mae gwledydd eraill yn ymdrin â'r mater hwn. Byddai'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn aiddosbarthu'r wybodaeth a ddosbarthwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth aiddosbarthu'r wybodaeth a ddosbarthwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Bwrdd yn ymwneud ag adolygu'r modd yr ymgysylltir â'r cyhoedd.

CYMERADWYWYD yr argymhellion o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a thryloywder yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ac eithrio cael gwared â'r sesiwn Holi ac Ateb gyhoeddus.

Eitem 10: Newidiadau Arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

49. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gyflwyniad yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS), fel y nodir yn y papur.

50. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i'r SaLS.

CYMERADWYWYD y newid arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS).

Eitem 11: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

51. Rhannodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ddogfen Rhagolwg y Bwrdd, gan gyflwyno trosolwg o bethau. Bydd y cyfarfod a gynhelir ym mis Mawrth yn canolbwyntio ar y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb a'r Cynlluniau Busnes.
52. Gofynnodd Zoe Henderson am amser ychwanegol ar gyfer yr eitem yn ymwneud â'r Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, er mwyn i'r Bwrdd allu cynnal trafodaeth lawn ynglŷn â'r hyn mae CNC yn ei wneud i sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth. Nodwyd bod trafodaeth lawn wedi'i chynnal ynglŷn â'r mater hwn yn ystod un o gyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau.

CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth neilltuo amser ychwanegol ar agenda cyfarfod mis Mawrth y Bwrdd ar gyfer cynnal trafodaeth lawn ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn CNC.

Eitem 12: Unrhyw Fater Arall

53. Gadawodd Mark McKenna yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.
54. Cynigiwyd y dylid penodi Mark McKenna yn Gadeirydd y Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid (PCSC). Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig hwn.

CYMERADWYWYD y dylid penodi Mark McKenna yn Gadeirydd y Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid.

55. Ailymunodd Mark McKenna â'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd iddo.
56. Nododd y Bwrdd y gymeradwyaeth trwy ohebiaeth ar gyfer aelodaeth dros dro y Pwyllgor Ystad Tir.

CYMERADWYWYD aelodaeth dros dro y Pwyllgor Ystad Tir.

- Diwedd cyfarfod y Bwrdd -

Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

57. Derbyniwyd cwestiwn ymlaen llaw gan Lloyd Evans ynglŷn â'r Prosiect Llaeth. Rhoddwyd ymateb i'r cwestiwn hwn y tu allan i'r cyfarfod.
58. Gofynnodd Kim Waters gwestiynau i'r Bwrdd. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - a) *A all CNC wneud datganiad cyhoeddus yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd ynglŷn ag adroddiad yr Athro Elwyn Evans ar lifogydd 2019/20. Yn benodol, mae llifogydd niferus dros 5 metr yn effeithio ar ecoleg a bioamrywiaeth Afon Wysg (sy'n ACA) bob blwyddyn. A oes modd i CNC wneud sylw ynglŷn â'r opsiynau arafu llifogydd sydd ar gael o gofio bod y system yn cynnwys pedair o gronfeydd Dŵr Cymru?*
 - b) *Bu 2022 yn flwyddyn wael iawn o ran dychweliad Eogiaid a Brithyllod y Môr i afonydd ledled Cymru. Mae nifer o isafonydd ein hafonydd salmonidau eiconig yn amddifad o silod, pariaid pysgod eogaidd ac ati. Beth yw'r bwriad o ran ailboblogi'r dalgylchoedd amddifad hyn? Ai pysgod "crwydrol" yn unig a fydd yn gyfrifol am yr ailstocio hwn, ynteu a fydd Magu Lled-naturiol (SNR) yn rhan o'r strategaeth? A all CNC gynnig gweledigaeth neu darged ar gyfer yr hyn mae'n anelu at ei gyflawni yn hyn o beth, a*

hefyd o ran rhaglenni fel LIFE? A all CNC ein cyfeirio at y dystiolaeth sy'n ategu ei bolisi dim stocio?

59. Cytunwyd y byddai ymateb llawn yn cael ei roi i'r cwestiynau hyn y tu allan i'r cyfarfod, ond cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ymateb cyffredinol i'r cwestiynau.
60. Lluniwyd adroddiad yr Athro Elwyn Evans ar ran Llywodraeth Cymru, felly nid oedd y dyddiad cyhoeddi yn hysbys i CNC. Fodd bynnag, byddai'r canlyniad yn cael ei gyflwyno yn ystod un o gyfarfodydd y dyfodol. Mae adroddiadau gwybodaeth ac adroddiadau adran 19 CNC wedi'u cyhoeddi ar y wefan. Mae CNC wedi adolygu ei dystiolaeth ei hun ac wedi cymryd camau a oedd yn rhan o'r cofnod cyhoeddus.
61. Cyflwynwyd trosolwg o gronfeydd arafu llifogydd. Esboniwyd bod eu gallu i arafu llifogydd yn gyfyngedig oherwydd eu maint. Eir i'r afael â gweithgareddau a chamau ychwanegol, fel y Rhaglen Adfer Mawndiroedd a dulliau o Reoli Llifogydd yn Naturiol, er mwyn helpu yn hyn o beth; ond cyfyngedig fyddai gallu'r rhain i liniaru llifogydd yn ystod stormydd.
62. Nodwyd y cwestiwn ynglŷn â Physgodfeydd. Dyma bwnc amserol iawn a bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Fforwm Pysgodfeydd Cymru. Ac yntau'n Gadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru, cyflwynodd yr Athro Steve Ormerod sylw ar y cwestiwn a nododd y byddai'r papurau ar gael yn gyhoeddus erbyn yr wythnos ganlynol. Bydda'r dolenni a'r sylfaen dystiolaeth ynglŷn â'r polisi dim stocio yn cael eu hanfon at Mr Waters fel rhan o'r ymateb ffurfiol i'w gwestiynau.

CAM GWEITHREDU: Dylid anfon y dolenni a'r sylfaen dystiolaeth ynglŷn â'r polisi dim stocio at Mr Kim Waters fel rhan o'r ymateb ffurfiol i'w gwestiynau.

63. Gofynnodd Tom Tibbits, cynrychiolydd grŵp gwyddoniaeth dinasyddion, pam nad oedd CNC yn defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion yn fwy rheolaidd yn unol â dull Asiantaeth yr Amgylchedd.
64. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod ymateb wedi cael ei anfon yn ddiweddar ynglŷn ag Afon Gwy Isaf ac y byddai ymateb llawn ynglŷn ag Afon Gwy yn cael ei anfon ar ôl y cyfarfod. Yn ôl y Cadeirydd, bydd barn y Bwrdd ynglŷn â chroesawu gwyddoniaeth dinasyddion a chefnogaeth y Bwrdd i'r mater yn elfen hollbwysig o'r dull wrth symud ymlaen.
65. Gofynnodd Tom Tibbits gwestiwn yn ymwneud â phryderon ynghylch effeithiau tail dofednod ar ddalgylchoedd afonydd, a gofynnodd pam nad yw CNC yn gwrthwynebu ceisiadau cynllunio newydd yn hyn o beth.
66. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hwn yn bwnc pwysig ar agenda CNC a bod y mater wedi'i drafod eisoes yn ystod cyfarfod preifat. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod trafodaethau ar y gweill gydag Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Cymru, a oedd yn gyfrifol am ystyried unrhyw fylchau yn y ddeddfwriaeth. Esboniwyd rolau a chyfrifoldebau CNC mewn perthynas â'r broses drwyddedu ac fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio. Nodwyd na ellir gwneud sylwadau ar geisiadau penodol. Cytunwyd y byddai CNC yn ymateb i Mr Tibbits yn ysgrifenedig, gan gadarnhau chyfrifoldebau CNC mewn perthynas â'r broses.

CAM GWEITHREDU: Dylid anfon ymateb ffurfiol at Tom Tibbits yn sôn am rolau a chyfrifoldebau CNC mewn perthynas â chynllunio a thrwyddedu.

- Diwedd y cyfarfod -

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif Cam G	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr Papur	Cam gweithredu	Pwy	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
2	Cyhoeddus	14/07/2022	8	40	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	CAM GWEITHREDU: Diweddariad i'w ddosbarthu i aelodau Bwrdd prosiect megadalgylch Bannau Brycheiniog.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	17/08/2022	Parhaus	Gavin Bown yn llunio diweddariad gyda Natalie Hall a David Letellier
15	Cyhoeddus	27/01/2023	5	24	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd WFF	CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ddiwygio sillafiad Stâd y Faenol ym mhapur Diweddariad WFF a sicrhau bod sillafiad Cymraeg o enwau lleoedd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol	Ysgrifenyddiaeth	20/02/2023	Cwblhawyd	
16	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol FCS	CAM GWEITHREDU: FRMC i ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	11/04/2023	Parhaus	Mae Rob Bell a Jeremy Parr yn cwrrd â'i gilydd i drafod cyn cyfarfod FRMC ar 18 Ebrill
17	Cyhoeddus	27/01/2023	8	39	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Yr Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050 i rannu copiâu o'r datganiadau gweledigaeth llawn gyda'r Bwrdd	Russell De'Ath, Uwch Gynghorydd Arbenigol, gweledigaeth 2050	02/03/2023	Cwblhawyd	
18	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd y Bwrdd yn seiliedig ar leoedd	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	27/04/2023	Parhaus	
19	Cyhoeddus	27/01/2023	9	48	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ailddosbarthu'r wybodaeth o gyfarfod Bwrdd Tachwedd ar yr adolygiad o ymgysylltu â'r cyhoedd	Ysgrifenyddiaeth	20/02/2023	Cwblhawyd	
20	Cyhoeddus	27/01/2023	11	52	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys amser ychwanegol ar agenda'r Bwrdd ym mis Mawrth am drafodaeth lawn ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn CNC	Ysgrifenyddiaeth	20/02/2023	Cwblhawyd	
21	Cyhoeddus	27/01/2023	oli ac ateb	62	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Y sail dystiolaeth ar y polisi dim-stocio a'r dolenni i'w hanfon at Mr Kim Waters fel rhan o ymateb ffurfiol i'w gwestiynau	Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd	02/03/2023	Cwblhawyd	
22	Cyhoeddus	27/01/2023	oli ac ateb	66	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ymateb ffurfiol i'w anfon at Tom Tibbits ar rolau a chyfrifoldebau CNC tuag at gynllunio a thrwyddedu.	Becky Favager, Polisi Rheoleiddio a Rheolwr Dull Gweithredu	02/03/2023	Cwblhawyd	

Papur Bwrdd CNC

	Manylion y Papur
Dyddiad y cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – SESIWN GYHOEDDUS
Cyfeirnod y papur:	23-03-B05
Noddir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y papur	Gwybodaeth/Trafodaeth

Cyflwyniad

- Er bod y tywydd wedi bod yn fwy caredig na'r disgwyl, mae CNC wedi cael ychydig fisoedd prysur yn delio â nifer o ddigwyddiadau llygredd, ac mae gwaith ar y Cynllun Corfforaethol, Natur a Ni a'r gyllideb yn mynd rhagddo'n gyflym. Mae gweithredu diwydiannol gan athrawon a gweithwyr rheilffyrdd yn parhau i effeithio ar ein gwaith, a galwodd un o'n hundebau cydnabyddedig, sef Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), ar ei aelodau i streicio ar 1 Chwefror fel rhan o anghydfod y gwasanaeth sifil. Cymerodd 175 o staff CNC ran yn y streic (o blith 240 o aelodau PCS). Bwriedir cynnal diwrnod arall o weithredu diwydiannol ar 15 Mawrth. Rydym wedi cael gwybod bod undeb Prospect hefyd yn bwriadu gofyn i'w aelodau bleidleisio ynglŷn â gweithredu diwydiannol, ond nid ydym wedi cael gwybod yn ffurfiol eto pryd fydd hyn yn digwydd.
- Mae'r dasg o recriwtio'r Pennaeth Prosiectau a Rhaglenni yn parhau ac mae'r gwaith o recriwtio dau Bennaeth Lle wedi dechrau'n barod. Rwy'n falch ein bod wedi penodi Ian Mowatt yn ddiweddar yn Bennaeth Caffael a Chontractau, sef swydd sydd newydd ei chreu. Ian oedd ein Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Rheoli Contractau gynt. Bydd yn ymgymryd â'i swydd newydd ar 1 Ebrill. Trist oedd clywed yn ddiweddar y bydd Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, yn ein gadael er mwyn dychwelyd at ei gwaith fel ymgynghorydd yn y maes Addysg Uwch.

- Er nad yw'r tywydd wedi bod mor wlyb ag y gallai, prin fu'r cyfleoedd i fynd hwnt ac yma. Fodd bynnag, ar 3 Chwefror treuliais ddiwrnod pleserus yng nghwmni Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru, Dylan Williams, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, a rhai o aelodau tîm Gogledd Orllewin Cymru. Fe wnaethom gyfarfod yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin cyn symud i Fwynglawdd Copr Glasdir, ac yna i'r gwely misglod perlog yn Afon Eden. Bydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC) yn ymweld â'r gwely misglod ym mis Mai – ymweliad sydd ar agor i holl aelodau'r Bwrdd. Rwy'n edrych ymlaen at ymweld â fferm yng Nghanolbarth Cymru gyda'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Ymgysylltu

Rhanddeiliaid

- Ddiwedd mis Chwefror, cefais gyfarfod hynod fuddiol gydag Eilish McGuinness ac Andrew White o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wrth iddynt lansio'u strategaeth ddeg mlynedd. Buom yn trafod cyfleoedd i weithio mwy mewn partneriaeth mewn nifer o feysydd, a byddaf yn siarad gydag Andrew eto yn y dyfodol agos i drafod y cyfleoedd hyn a chytuno ar y camau nesaf. Ymhellach, ar 27 Chwefror cefais gyfarfod â James Price, Prif Swyddog Gweithredol Trafnidiaeth Cymru, i drafod y modd y gellir rheoli llystyfiant ar argloddiau rheilffyrdd ynghyd â ffyrdd eraill y gall Trafnidiaeth Cymru gyflwyno gwelliannau er budd bioamrywiaeth. Cytunwyd y byddem yn gweithio tuag at gael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Trafnidiaeth Cymru, fel yr un sydd gennym gyda Network Rail, a chytunwyd hefyd y byddem yn gweithio gyda'r ddau sefydliad ar faterion cyffredin.
- Fe wnaeth Rhian Jardine, Pennaeth y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu (DPAS) a'r Gwasanaethau Morol, a minnau gyfarfod â Phwyllgor Parth Menter Dyfrffyrdd Hafan i drafod trwyddedu morol a datgarboneiddio. Fy mwriad yw cyfarfod â rhai o aelodau'r pwyllgor yn y cnawd pan fyddaf yn ymweld â'r De Orllewin ym mis Ebrill.
- Cefais gyfarfod rhagarweiniol gyda Dafydd Rees, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, a Derek Walker, y Comisiynydd newydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, a aeth ati'n unswydd i gyfarfod â mi ar ei ddiwrnod cyntaf yn ei swydd. Buom yn trafod ei uchelgais i wneud effaith y Ddeddf yn fwy gweladwy ac amlwg i bobl ar y stryd, ynghyd â'r modd y gallai'r Comisiwn helpu i gynorthwyo ein gwaith a dylanwadu arno. Nodais y profiad cadarnhaol a gafodd ein staff gydag Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a bydd ein cefnogaeth i hyn yn parhau. Gobeithio y bydd modd iddo ymuno â ni yn ein Digwyddiad Senedd ym mis Mehefin.

Llywodraeth Cymru

7. Ar 7 Chwefror, cefais gyfarfod â Claire Bennett a fydd yn cymryd yr awenau oddi ar Gian Marco Currado fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr yn Llywodraeth Cymru ar 27 Chwefror. Arferai Claire fod yn Gyfarwyddwr yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi, ac mae ganddi ddiddordeb ysol mewn cyfiawnder cymdeithasol a gwrth-hiliaeth. Mae Gian Marco wedi symud i'r adran Materion Gwledig yn y Gyfarwyddiaeth, a bydd yn parhau i weithio gyda ni ar faterion fel amaethyddiaeth a bwyd.
8. Cefais ambell gyfarfod gyda'r Gweinidog i drafod materion gweithredol, sef Llangennech a'r Bil Seilwaith.

Y Senedd

9. Ar 9 Chwefror, fe wnaeth Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a minnau fynychu sesiwn graffu flynyddol CNC gyda Phwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Pleser yw cael dweud ein bod wedi cael cyfarfod da. Roedd cwestiynau'r aelodau'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol a gosod cyllidebau, a hefyd ar ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â'r trafodaethau ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru, ynghyd â manylion am y modd mae ein treuliau staff ar ôl y pandemig wedi mwy na haneru. Byddwn yn gwahodd holl Aelodau'r Senedd i ddigwyddiad lansio allanol ein Cynllun Corfforaethol newydd yn y Senedd ar 6 Mehefin.

Natur a Ni

10. Mae canfyddiadau'r ail gam wedi'u cyhoeddi bellach ar wefan Natur a Ni. Mae naw o weithiau celf sy'n cyfleu'r trafodaethau a gafwyd ynglŷn â'r datganiadau hyn wedi cael eu cadarnhau, a byddant ar gael ar ein gwefan yn fuan.
11. Ar 11 Chwefror, cynhaliwyd sesiwn gyntaf Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni. Bu'r cyfranogwyr yn trafod blaenoriaethau ar gyfer ffyrdd cynaliadwy o fyw a chyflwynwyd canlyniad cam cyntaf Natur a Ni, ochr yn ochr â thystiolaeth ynglŷn â phwysigrwydd byd natur i bobl. Cafwyd cyflwyniadau gan yr Athro Steve Ormeron, Sharon Thompson (RSPB Cymru), Nerys Edmonds (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Alex Ioannou (CNC) a Marie Brousseau-Navarro (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol). Cafwyd amser i drafod a myfyrio fel grŵp. Yn amlwg, roedd gan y cyfranogwyr ddiddordeb mawr yn y pynciau trafod a rhannwyd llawer o gwestiynau ac adborth.
12. Cynhaliwyd yr ail sesiwn dros y penwythnos cyntaf ym mis Mawrth. Canolbwyntiodd y sesiwn hon ar fyw gyda natur, a defnyddiwyd mwy ar ganfyddiadau Natur a Ni ac ar brofiadau bywyd y bobl eu hunain. Mynychais sesiwn Wrecsam gyda Geraint Davies.

Bydd y drydedd sesiwn, a'r sesiwn olaf, yn cael ei chynnal ar 18 Mawrth. Y canolbwynt fydd cytuno ar y weledigaeth.

13. Bydd Natcen, sef y sefydliad sy'n hwyluso'r sesiynau, yn llunio adroddiad a fydd yn ateb y cwestiynau a ofynnwyd, gan ddefnyddio data a syniadau a ddeilliodd o'r sesiynau, nodiadau a luniwyd gan yr hwyluswyr ac ôl-drafodaethau a gynhaliwyd gyda'r hwyluswyr wedi i'r sesiynau ddod i ben. Bydd adroddiad ar wahân yn cyfleu'r broses a ddilynwyd a'r gwersi a ddysgwyd. Disgwyliwn gael braslun tua chanol mis Ebrill a disgwyliwn i fersiwn gyntaf y ddau adroddiad fod yn barod erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Mai.
14. Rydym yn gweithio gyda Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, Bwrdd Rhaglen Natur a Ni a Phanel Cynghori'r Cynulliad i ddatblygu cynllun manwl ar gyfer hyrwyddo'r weledigaeth ac ystyried ar y cyd sut gallwn ymateb i'r argymhellion a nodir yn y weledigaeth fel rhan o gam nesaf y gwaith hwn. Ar 6 Mawrth, bydd gweithdy'n cael ei gynnal gyda Phanel Cynghori'r Cynulliad i'r perwyl hwn. Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan. Hefyd, rydym yn dechrau adolygu sut gallwn anelu at roi'r weledigaeth ar waith a sut gallwn gyflawni amcanion strategol y rhaglen yng ngoleuni'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid

15. Ym mis Ionawr, arweiniodd ein haelodaeth o'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid at ein cynnwys yn Arolwg y DU o Fodlonrwydd Cwsmeriaid am yr eildro yn olynol, gan ein galluogi i ddechrau olrhain ein cynnydd a deall y data. Mae data cynnar yn dangos bod ein sgôr gyffredinol wedi gwella rhywfaint a'n bod wedi symud yn uwch i fyny'r rhestr ymhlith ein cydsefydliadau yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Y Polisi a'r Weithdrefn Gwyno

16. Ym mis Ionawr, fe wnaethom rannu ein Polisi a'n Gweithdrefn Gwyno ar eu newydd wedd gyda'r Grŵp Arwain, y Rheolwyr ac Arweinwyr Timau. Lluniwyd y polisi a'r weithdrefn yn unol â'r Awdurdod Safonau Cwyno (CSA), sef un o ganghennau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nod y polisi newydd yw sicrhau y byddwn yn ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol ac yn osgoi prosesau maith ag amryfal gamau'n perthyn iddynt – sef prosesau sy'n dreth ar amser ein cwsmeriaid a'n staff.
17. Bydd y polisi newydd yn lleihau'r nifer o gamau sy'n rhan o'n proses, o dri i ddau. Byddwn yn ymateb i gwynion Cam 1 o fewn deg diwrnod gwaith (ugain diwrnod gwaith ar hyn o bryd), ac rydym wedi cyflwyno proses symlach ar gyfer cwynion Cam 2 – nid yw'r broses hon yn llai trylwyr na'r broses bresennol, ond mae'n golygu

y gallwn ymateb i'r rhan fwyaf o ymchwiliadau Cam 2 o fewn ugain diwrnod gwaith. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan y staff ynglŷn â'r broses newydd ar gyfer delio â chwynion Cam 2.

18. Canolbwynt allweddol y polisi newydd yw defnyddio adborth sy'n deillio o gwynion i wella prosesau a gweithdrefnau, gan arwain at osgoi ailadrodd cwynion a gwella profiad cyffredinol ein cwsmeriaid. Eisoës, rydym yn gweithio tuag at gyflawni ar sail y polisi. Rhoddir y polisi ar waith o 1 Ebrill. Dengys hyn ein hymrwymiad i wella'n barhaus y ffordd rydym yn delio â chwynion gan gwsmeriaid, er mwyn sicrhau yr ymchwilir i'r cwynion hynny yn drylwyr ac yn gyflym – rhywbeth a fydd o fudd i'n cwsmeriaid a'n staff. Er mwyn cynorthwyo i roi'r polisi newydd ar waith, bydd yr Awdurdod Safonau Cwynion yn cyflwyno hyfforddiant i swyddogion ymchwilio arweiniol dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Cyfathrebu a Materion Digidol

Cyber Essentials Plus

19. Y cynllun Cyber Essentials Plus yw sylfaen ein rhaglen flynyddol ar gyfer sicrwydd seiber. Mae a wnelo'r cynllun ag achrediad seiber annibynnol lle defnyddir cwmni arbenigol allanol cymeradwy, gan gydymffurfio â safonau Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) y llywodraeth ganolog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r safonau allweddol hyn ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus wedi esblygu, a dyna hefyd hanes ein mesurau rheoli ni a'r modd y rhoddwn fesurau diogelwch ar waith i leihau tebygolrwydd ymosodiadau seiber ynghyd â lleihau'r effaith pe bai ymosodiadau o'r fath yn digwydd.
20. Rydym wedi llwyddo i ddal gafael ar ein hachrediad Cyber Essentials Plus am flwyddyn arall. Dyma'r seithfed flwyddyn yn olynol inni gynnal y safonau gofynnol. Bu'r asesiad eleni yn anodd ar adegau o ystyried bod ei gwmpas yn cynnwys cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol yn ymwneud â Gweithio Gartref, Dod â'ch Dyfais eich Hun (BYOD), Dilysu Aml-ffactor i bob defnyddiwr a Gwasanaethau Cwmwl.
21. Yn ychwanegol at hyn, ym mis Chwefror llwyddodd CNC i gyflawni Lefel 1 Sicrwydd Seiber IASME (Information Assurance for Small and Medium Enterprises Consortium) (sef Safon y Llywodraeth IASME gynt), gan gyrraedd un o dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer holl Gyrff Sengl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflawni'r achrediad hwn yn 2023. Ein nod yn awr yw bwrw ymlaen â'r gwaith da hwn a cheisio cyflawni Lefel 2 Sicrwydd Seiber IASME yn 2024.

Llifogydd

22. Bu'r Tîm Cyfathrebu yn cynorthwyo â pharatoadau ac ymatebion CNC i ddigwyddiadau glaw a llifogydd ym mis Ionawr, gan rannu rhybuddion a negeseuon gwybodaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a chynnal amrywiaeth o gyfarfodydd gyda'r cyfryngau. Bu modd inni rannu negeseuon allweddol ynglŷn ag effaith newid hinsawdd a'r heriau o ran rheoli'r perygl llifogydd i Gymru yn y dyfodol. Parhawyd â hyn yn ein cyfathrebu rhagweithiol mewn perthynas â nodi llifogydd Chwefror 2020, pan gynhaliwyd cyfweliadau ag ITV Wales a BBC Wales.
23. Ymhellach, cynorthwyodd y tîm cyfathrebu i lansio'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gyfer y cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynorthwyo i lansio ymgyrch Dawns Glaw.

Digwyddiad llygredd Llangennech

24. Bu'n rhaid mynd ati i reoli rhai negeseuon anodd wrth gyfathrebu'r penderfyniad i beidio ag erlyn neb yn dilyn digwyddiad llygredd Llangennech. Gweithiodd y Tîm Cyfathrebu yn agos â'r timau Gweithrediadau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol i goreograffu'r gwaith cynllunio a'r wybodaeth cyn y cyhoeddiad gyda rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd gwleidyddol a chynulleidfaoedd y cyfryngau, a hefyd i gydgyssylltu nifer o gyfweliadau â'r cyfryngau er mwyn sicrhau bod y sylw a roddwyd i'r pwnc dyrys hwn yn gytbwys ac mor deg â phosibl.

Materion Strategol

Cydstrategaeth yn ymwneud â Threthi Gwarediadau Tirlenwi

25. Ers 2018, mae CNC ac Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth agos ar Drethi Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Fel y rheoleiddiwr trethi, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi dirprwyo rhai swyddogaethau i CNC mewn perthynas â chasglu a rheoli'r dreth. Caiff y dyletswyddau hyn eu gwneud gan dîm Trethi Gwarediadau Tirlenwi CNC ar sail genedlaethol. Caiff y tîm hwn ei ariannu'n llwyr gan Awdurdod Cyllid Cymru.
26. Trwy gyfrwng y trefniant dirprwyo, mae CNC ac Awdurdod Cyllid Cymru wedi meithrin perthynas sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall, gan alluogi'r ddau sefydliad i gael dealltwriaeth gyffredin o'r tirlun gwastraff yng Nghymru (yn cynnwys ymddygiad yn y sector gwastraff anghyfreithlon), a chan sicrhau y rhoddir y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar waith mewn modd sy'n ategu amcanion amgylcheddol CNC a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd.
27. Arian sydd wrth wraidd troseddau gwastraff, oherwydd mae rhai mathau o wastraff yn werthfawr ac mae mathau eraill yn gostus ac yn broblemus i'w trin. O'r herwydd, mae'r enillion ariannol a geir trwy osgoi talu'r costau yn ddigon mawr i olygu y gellir

symud gwastraff dros bellter mawr a bod y gweithgaredd anghyfreithlon yn dal i fod yn broffidiol i'r bobl o dan sylw. Mae CNC ac Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio ar y cyd, ac erbyn hyn maent wedi llunio cydstrategaeth a fydd yn pennu ein dull o ymdrin â Threthi Gwarediadau Tirlenwi a Threthi Gwarediadau Anawdurdodedig dros y tair blynedd nesaf, er mwyn gwireddu cydamcanion. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan bob sefydliad o ran gweithio tuag at nodau'r polisi Trethi Gwarediadau Tirlenwi a mynd i'r afael â throseddau gwastraff yng Nghymru.

28. Mae'r strategaeth yn pennu amcanion strategol lefel uchel a themâu cyffredinol a fydd yn siapio'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth. Er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith, rydym wedi llunio cynllun gweithredu ar y cyd lle nodir gweithgareddau cyfredol a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy'n cysylltu â'r amcanion strategol, gan gynnig cyfeiriad clir i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith.
29. Mae'r strategaeth wedi symud ymlaen trwy broses lywodraethu CNC. Yn ogystal â chymeradwyo'r strategaeth, mae aelodau ein Tîm Gweithredol wedi cadarnhau y dylid parhau â'r trefniant dirprwyo am dair blynedd arall, ac aethant ati i gefnogi'r syniad y dylid diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol er mwyn adlewyrchu'r newid yn ein dull (y strategaeth). Cyn bo hir, bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei gyflwyno gerbron Prif Weithredwyr y ddau sefydliad i'w gymeradwyo.

Materion Gweithredol

Trwydded Forol Prosiect Erebus

30. Ym mis Chwefror, rhoddodd CNC drwydded forol i Blue Gem Wind ar gyfer prosiect Erebus, sef fferm wynt arnofiol gyntaf Cymru. Fe'i lleolir oddi ar arfordir Sir Benfro a bydd yn cynnwys saith o dyrbinau 14MW y genhedlaeth nesaf ar lwyfannau arnofiol. Mae Blue Gem Wind yn fenter ar y cyd rhwng y Simply Blue Group a Total Energies, sef un o gwmnïau ynni mwyaf y byd.

Clefyd Coed Ynn

31. Mae'r gwaith o reoli diogelwch coed ar y tir y gofalwn amdano o ganlyniad i'r clefyd Chalara coed ynn yn mynd rhagddo'n rhesymol. Ar ddiwedd Chwarter 3 (Ch3), mae mwy nag 8,000 o goed heintiedig a allai fod yn beryglus wedi cael eu cwmpo mewn ardaloedd risg uchel yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae 15,000 yn ychwaneg o goed yn disgwyl cael eu cwmpo (o gymharu ag 20,000 ar ddiwedd Ch2).
32. Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm caffael y dylid rhoi mynediad i gronfa fwy o gontractwyr. Pan fo'r contractwyr yn gyfyngedig, rydym yn rhoi blaenoriaeth i'r safleoedd uchaf eu risg. Mae rhan helaethaf y gwaith mewn perthynas â rheoli'r

clefyd coed ynn yn y de-ddwyrain, a hefyd ceir nifer helaeth o goed yn y de-orllewin y mae angen rhoi sylw iddynt, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin.

33. Mae'r timau wedi rhoi gwybod bod lefelau'r haint yn is eleni o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ategir hyn gan waith ymchwil yn Ffrainc sy'n dangos bod tymheredd uchel yn yr haf, yn enwedig yn ystod Gorffennaf ac Awst, yn lleihau faint o sborau a gynhyrchir. Mae hyn yn arwydd o natur gylchol y clefyd; mae'n bosibl y byddai haf oer a gwlyb yn arwain at gynyddu lefel yr haint.

Cwblhau'r gwaith o adolygu trwyddedau'r sector Llosgi Gwastraff

34. Cwblhawyd y gwaith o adolygu a diweddarau trwyddedau amgylcheddol ar gyfer safleoedd llosgi gwastraff mwyaf Cymru, er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn cyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf.
35. Cafodd Dogfen Gyfeirio'r UE ar gyfer y Technegau Gorau sydd ar Gael (BREF) gogyfer y sector hwn ei chyhoeddi ar 3 Rhagfyr 2019, a rhoddwyd pedair blynedd i safleoedd llosgi gwastraff gydymffurfio â hi (h.y. tan 3 Rhagfyr 2023). Fel rhan o'n gwaith, buom yn adolygu trwyddedau ar sail arferion gorau diweddaraf y diwydiant, sef y Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT). Dyma un o ofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac mae'n sicrhau y bydd y diwydiant yn parhau i ddefnyddio'r technegau gorau i atal neu leihau allyriadau ac effeithiau ar yr amgylchedd. Gall y technegau hyn gynnwys y dechnoleg a ddefnyddir yn ogystal â'r ffordd y caiff safleoedd eu cynnal, eu gweithredu a'u datgomisiynu.
36. Mae'r pum safle yng Nghymru yn cynnwys dau losgydd gwastraff trefol, dau losgydd biomas a llosgydd gwastraff clinigol. Gosodwyd terfynau llymach ar yr holl safleoedd o ran allyriadau llygryddion a gwaith monitro ychwanegol. Er enghraifft, mae terfyn allyriadau deunydd gronynnol ar draws yr holl safleoedd wedi cael ei ostwng 50%. Yn achos y ddau losgydd gwastraff trefol, mae'r terfyn newydd o ran allyriadau mercwri yn sicrhau lleihad o 60%; ac ar un safle, mae'r terfyn o ran ocsidau nitrogen wedi cael ei dynhau 55%. Trwy gyfrwng amod gwella a ychwanegwyd at bob trwydded, yn awr mae'n ofynnol i bob gweithredwr gynnal ymchwil i leihau ocsidau nitrogen y tu hwnt i'r terfyn BAT.
37. Mae'n ofynnol i bob safle roi cynlluniau rheoli newydd ar waith mewn perthynas â gweithrediadau annormal, gweithrediadau cychwyn a gweithrediadau diffodd. Ar y cyfan, mae'r amodau newydd yn sicrhau y bydd trwyddedau ar gyfer y sector hwn yn arf rheoleiddio effeithiol, gan ysgogi gwelliannau parhaus a sicrhau y bydd y safleoedd yn cydymffurfio â safon gyson ledled Cymru a Lloegr.

Y Diweddaraf am y Prosiect Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

38. Ni chynhaliwyd ail Uwchgynhadledd Ffosffadau y Prif Weinidog ar 9 Chwefror yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Yn awr, bydd yn cael ei chynnal ar 8 Mawrth. Mae

Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Gweithredu gyda chyfraniad gan aelodau'r Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA (SACROG). Y gobaith yw y bydd y sefydliadau sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun yn ymrwymo iddynt yn yr uwchgyhadledd.

39. Ar ôl cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog, mae Cadeirydd CNC wedi cytuno i gadeirio tasglu lefel uchel ac arwain gwaith yn ymwneud â rhaglen Ansawdd Dŵr Cymru, fel y gellir cyflawni gwaith hollbwysig yn ddi-oed. Ni cheir cadarnhad eto ynglŷn â sut rhoddir hyn ar waith, ond mae ein partneriaid allweddol eisoes wedi cyfleu eu cefnogaeth.
40. Yn dilyn cynnydd diweddar yn nifer y cynigion datblygu, rydym wedi bod wrthi'n adolygu ein dull o ymdrin ag ymgynghoriadau cynllunio a thrwyddedu ar gyfer unedau dofednod dwys. Hefyd, rydym wedi ailasesu cysylltiadau rhwng ein rôl fel corff cadwraeth natur priodol ar gyfer cyngor cynllunio a'n cyfrifoldebau mewn perthynas â thrwyddedu amgylcheddol. Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'r unedau hyn, ac sy'n berthnasol hefyd i'r gwaith o reoli'r tail a gynhyrchir yn yr unedau o dan sylw, yn gymhleth ac o'r herwydd mae hi'n anodd pennu dulliau newydd cydlynol ac effeithiol. Rydym yn ceisio cyngor cyfreithiol ynghyd â barn Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r polisi.
41. Yn awr, rydym yn gweithio ar lunio asesiad cydymffurfio ar gyfer priodoleddau eraill yn ymwneud ag ansawdd dŵr ar ffurf Adroddiad Tystiolaeth, y bwriadwn ei gyhoeddi yn 2023. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn datblygu papur yn ymwneud â sut byddwn yn rheoli'r goblygiadau, ynghyd â phroses lywodraethu ar gyfer unrhyw newidiadau a gyflwynir yn y dyfodol i safonau neu dargedau ansawdd dŵr. Bydd y papur hwn yn cynnwys cynllun cyfathrebu. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau'n ymwneud â safleoedd trawsffiniol mewn perthynas â thargedau a roddir ar waith yng Nghymru a Lloegr. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar dargedau ar gyfer Afon Dyfrdwy isaf, ac mae Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno i gyhoeddi targedau 'yn agos at fod â chyflwr naturiol' ar gyfer y ddau gorff dŵr trawsffiniol ar ACA Afon Dyfrdwy. Golyga hyn y bydd targedau gwahanol i'w cael yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â ffosffadau, felly bydd angen eu cyfathrebu'n ofalus. Mae Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno i weithio gyda CNC yn hyn o beth.
42. Mae gwaith a wnaed gan CNC ar fesurau lliniaru mewn perthynas â lleihau ffosffadau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd; bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar y gofynion rheoleiddio. Hefyd, mae mesurau lliniaru wrthi'n cael eu coladu, yn cynnwys mesurau sy'n deillio o waith arall a gomisiynwyd (Cyngor Sir Gâr); bydd y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n fewnol cyn ei chyhoeddi. Ymddengys hyn ar ffurf cam gweithredu yn y Cynllun – cam gweithredu mae CNC yn gyfrifol amdano. Cyflwynwyd Adroddiad Cyfrifiannell Maethynnau Arup i Lywodraeth Cymru i'w

ystyried, ac rydym wedi datblygu manyleb tendr ar gyfer Llywodraeth Cymru gogyfer creu Cyfrifiannell Maethynnau Cymru gyfan.

43. Mae CNC wedi cynnull cyfarfod ar gyfer Swyddogion Allanol y Byrddau Rheoli Maethynnau er mwyn cynnig cymorth a sicrhau y ceir cysondeb ac y rhennir gwybodaeth rhwng yr holl Fyrddau Rheoli Maethynnau. Mae holl Fyrddau'r Afonydd ACA sy'n methu â chyrraedd y targed wedi cyfarfod, ac eithrio bwrdd Afon Gwy a gaiff ei lansio ym mis Mawrth. Mae Cylch Gorchwyl y Byrddau'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae CNC yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau y bydd modd i'r Byrddau ddatblygu a chyflawni amcanion Cynllun Rheoli Maethynnau. Cynhaliwyd trafodaethau'n ymwneud â sefydlu Bwrdd Rheoli Maethynnau Cenedlaethol, fel y gellir osgoi trafod materion cenedlaethol ar lefel leol. Adlewyrchir hyn yn y Cynllun Gweithredu.
44. Ar 8 Chwefror, cyfarfu'r Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA – sef un o is-grwpiau Fforwm Rheoli Tir Cymru – am y tro cyntaf. Dyma Grŵp bach a gaiff ei arwain gan y sector. Fe'i ffurfiwyd er mwyn deall materion yn ymwneud ag Afonydd ACA, datblygu sylfaen dystiolaeth, llunio cynllun cyfathrebu ar gyfer y diwydiant ffermio a chynnig cyngor technegol i'r Byrddau Rheoli Maethynnau.
45. O ran tystiolaeth, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Gweithgor Tystiolaeth Bwrdd Rheoli Maethynnau Afon Gwy ym mis Rhagfyr. Mae CNC wrthi'n coladu daliadau data'r aelodau, a hefyd caiff asesiad ei lunio yn ymwneud â pha mor addas yw'r daliadau data hyn i'r dull a ffeirir ar gyfer asesu'r "bwlch llygredd". Mae Prifysgol Bryste wedi cynnal cyfarfod cychwynnol ei phrosiect Quantum, sy'n bwriadu mesur a disgrifio'r effaith a gaiff tail da byw ar ansawdd dŵr o ran maethynnau, pathogenau a chemegau eraill. Canolbwyntiodd cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Dŵr Cymru Welsh Water a Sefydliad Gwy ac Wysg ar ein rhwydweithiau offer ar Afon Gwy ac Afon Wysg, a rhannwyd profiadau o dechnoleg wahanol a'r modd y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau y bydd ein rhwydweithiau'n ategu ei gilydd.
46. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chymdeithas Eog Gwy. Mae'r Gymdeithas wedi llunio adroddiad yn asesu dosbarthiad ffosffadau yn y tarddiad yn nalgylch Llynfi trwy ddefnyddio data sydd ar gael, yn cynnwys data gwyddoniaeth dinasyddion. Mae'r adroddiad hwn yn ategu canlyniadau modelu ein System Gwybodaeth Ddaearyddol ar gyfer Dosbarthiad yn y Tarddiad (SAGIS) gyda chasgliadau tebyg yn ymwneud â llwythi a chyfraniadau cymharol amaethyddiaeth a thrin carthion. Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi mynd ati ar y cyd i lunio crynodeb o fodolau SAGIS ar gyfer dalgylch Afon Gwy gogyfer Bwrdd Rheoli Maethynnau Afon Gwy, yn cynnwys un ffeil o allbynnau data ar gyfer pob corff dŵr yn y dalgylch. Mae'r ffeil honno'n cyfuno allbynnau Afon Gwy Isaf Asiantaeth yr Amgylchedd â model Afon Gwy Uchaf CNC/Dŵr Cymru Welsh Water.

47. Mae'r broses Adolygu Trwyddedau yn elfen hollbwysig o'r Cynllun Gweithredu, ond bydd angen ei hystyried law yn llaw â gofynion monitro'r cwmnïau dŵr er mwyn sicrhau hyblygrwydd ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd. Cwblhawyd a chytunwyd ar y rhestr derfynol ar gyfer adolygu trwyddedau gogyfer Dŵr Cymru Welsh Water. Rhestrir 152 o safleoedd y bydd angen cynnwys terfyn Ffosforws yn eu trwyddedau. Pennwyd a chytunwyd ar reolau ymgysylltu, rolau a chyfrifoldebau'r broses adolygu trwyddedau. Bydd yr asesiad technegol gogyfer yr adolygiadau'n cael ei gynnal o fewn y Polisi Ansawdd Dŵr; gwaith gweinyddol fydd y gwaith adolygu trwyddedau yn bennaf. Bydd arweinydd y ffrwd waith yn rheoli'r gwaith ac yn gweithredu fel arweinydd technegol y broses adolygu trwyddedau.
48. O ran pa weithfeydd trin dŵr gwastraff sydd eisoes yn meddu ar drwydded a all ddiogelu'r ACA yn ddigonol, bwriadwn rannu'r wybodaeth hon gyda'r Awdurdodau Cynllunio fesul ACA cyn gynted â phosibl. Mae'r bwriad hwn yn ddibynnol iawn ar allu CNC i ddilysu gwaith SAGIS Dŵr Cymru Welsh Water, sy'n dal i ddiodef oedi. Cynhelir trafodaethau parhaus i bennu pryd yn union yn y broses y gellir rhannu'r wybodaeth hon gydag Awdurdodau Lleol.

Partneriaeth Afon Hafren

49. Er y canolbwyntir yn fawr ar reoli perygl llifogydd ac adnoddau dŵr, mae Partneriaeth Afon Hafren hefyd yn ystyried ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a materion perthynol ehangach. Gan gydnabod y tirlun deddfwriaethol gwahanol a geir yng Nghymru, ynghyd â natur gynhennus bosibl y materion hyn a'r ymgysylltu cyfyngedig â Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru hyd yn hyn, nid ydym wedi ymrwymo eto i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Partneriaeth Afon Hafren.
50. Ers inni dynnu sylw Llywodraeth Cymru at Bartneriaeth Afon Hafren a Chynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol rhwng Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cymru a rhoddwyd rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Mae cyfarfod dilynol wrthi'n cael ei drefnu rhwng DEFRA a Llywodraeth Cymru; bydd CNC yn mynychu'r cyfarfod hwn hefyd. Deallwn mai'r bwriad ar hyn o bryd yw rhoi manylion y cynigion i'r Gweinidog yn dilyn y cyfarfod hwn.

Digwyddiadau llygredd yn y De Orllewin

51. Cafwyd tri achos llygredd yn y De Orllewin yn ddiweddar. Digwyddodd y mwyaf difrifol o'r rhain ar 18 Chwefror wrth ymyl yr A40 ger Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin, lle 'collwyd' 70,000 litr o ddiesel o gynwysyddion storio tanwydd mawr y tu ôl i garej ddsbarthu leol yn ystod/o ganlyniad i ladradd. Cafodd rhywfaint o ddiesel ei ddwyn; cronodd y gweddill mewn cae gerllaw, gan ymledu i Nant y Pibwr (un o is-afonydd ACA Tywi) ac ar hyd sail cilometr o'r nant. Nid aeth unrhyw ddiesel i Afon Tywi.

Effeithiwyd ar gwrs dŵr Nant y Pibwr yn 2017 hefyd pan ollyngodd cerosin iddi oherwydd crac mewn piblinell fawr; arweiniodd hyn at Ymgymeriad Gorfodi.

52. Gweithiodd contractwyr arbenigol ochr yn ochr â'n staff i ddefnyddio bwmau a mesurau lliniaru eraill. Daethpwyd o hyd i hanner cant o frithyllod, 91 o bennau lletwad ac un brithyll y môr yn farw. Mae'r digwyddiad wedi'i gau erbyn hyn; ond gyda chymorth ein harbenigwyr gwyddorau daear, rydym yn parhau i gysylltu â'r contractwyr a hefyd â thirfeddianwyr, perchnogion garejis a'u cynrychiolwyr i ddatblygu cynnig i adfer y tir halogedig. Mae ymchwiliad CNC yn parhau, a hefyd cynhelir ymchwiliad ar wahân gan yr heddlu.
53. Ar 23 Chwefror, llygrwyd nant leol yn Broadhaven, Gogledd Sir Benfro, ag olew. Yn sgil ymchwiliadau CNC, bu'n rhaid i Wylwyr y Glannau ynysu'r nant wrth draeth gogleddol Broadhaven, sy'n lle poblogaidd i fynd â chŵn am dro. Ar ôl i'r sefyllfa waethygu, ymatebwyd i'r achos fel gollyngiad olew ac aethpwyd ati i lanhau'r ardal. I'r perwyl hwnnw, defnyddiwyd bŵm sugno olew. Rydym yn dal i ymchwilio i darddiad y llygredd. Aethom ati i gyhoeddi datganiadau i'r wasg ar Twitter a Facebook er mwyn ceisio rheoli'r sylw sylweddol a gafwyd ar y cyfryngau.
54. Yn olaf, yn ogystal â digwyddiad ar wahân ar Afon Cletwr (un o is-afonydd Afon Teifi yng Nghanolbarth Cymru), bu Gwasanaeth Dadansoddi (Labordy) CNC yn delio â samplau o ddau lagŵn slyri a oedd wedi dymchwel.
55. Digwyddodd yr achosion diweddar hyn tra mae Tîm Sir Gaerfyrddin wrthi'n treialu'r modd y rhoddir dyletswyddau newydd CNC ar waith o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Yn ystod y cyfnod treialu hwn, sy'n para tri mis, rhaid tybio bod yr holl ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt o dan y Rheoliadau yn ddigwyddiadau categori Uchel, felly mae'r tîm lleol wedi cael cyfnod prysur iawn.

Symud Cored Cribynau – Hwyluso Ymfudiad Pysgod yn Afon Clywedog

56. Ariannwyd Prosiect Symud Cored Cribynau gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop er mwyn hwyluso ymfudiad pysgod yn Afon Clywedog ger Llanidloes. Mae cronfa ddŵr Clywedog oddeutu 3.5 cilometr yn uwch i fyny'r afon na'r gored, a chaiff llif yr afon ei reoli er mwyn i Severn Trent / Hafren Dyfrdwy allu tynnu dŵr ohoni i gyflenwi dŵr yn is i lawr yr afon.
57. Mae cronfa ddŵr Clywedog yn dal graean a gwaddodion, gan eu rhwystro rhag cael eu cludo i lawr yr afon. Golyga hyn na cheir gwelyau graean addas y gall pysgod silio ynddynt, ac o'r herwydd ni cheir eogiaid yn y cwrs dŵr. Trwy gael gwared â'r gored ym mis Ionawr 2023, agorwyd 3.5 cilometr o gynefin, gan annog prosesau naturiol yr afon. Mae CNC yn bwriadu ailgyflwyno gwelyau graean yn y rhan hon o'r afon fel rhan o brosiect i annog pysgod i silio yno yn y dyfodol.

Prosiect Cysylltiad Grid Tywi Wysg

58. Yn ddiweddar, cyflwynodd Bute Energy ei Brosiect Cysylltiad Grid Tywi Wysg gerbron tîm Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu CNC. Mae a wnelo'r cynnig hwn â chysylltiad grid gyda pheilonau uwchben y ddaear o sawl parc ynni adnewyddadwy yng Nghanolbarth Cymru i lawr dyffryn Tywi, mewn cyfeiriad de-orllewinol, o ardal wrth ymyl Llandrindod i is-orsaf newydd a gaiff ei hadeiladu rhwng Trimsaran a Chaerfyrddin. Bydd y datblygiad yn cynnwys cais cynllunio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.
59. Yn sgil y cyfarfod, bu modd inni ymgysylltu'n gynnar yn y broses a chynnig cyngor trwy gyfrwng ein Gwasanaeth Cyngor Datblygu. Mae'r prosiect hwn yn brosiect sylweddol a chanddo amserlen heriol. Eisoës, mae'r prosiect wedi denu cryn sylw ar y cyfryngau ac mae'r cyhoedd wedi mynegi pryder ynglŷn â chodi peilonau. Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am wyth wythnos o 6 Mawrth a dechrau ar broses y Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi i gais cwmpasu gael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn ystod Ch3 2023.
60. Mae Bute Energy wedi comisiynu tîm o ymgynghorwyr cynllunio amgylcheddol i ddechrau cynnal arolygon yn y gwanwyn, yn cynnwys arolygon adar, ecoleg, hydroleg a thirwedd. Mae'n debygol y bydd CNC yn cael cais am gyngor disgrisiynol oddeutu'r un pryd. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar wahân gyda'r cwmni ynglŷn â defnyddio Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Ysbyty Felindre

61. Mae trafodaethau'n dal i gael eu cynnal gyda thîm Prosiect Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd ynglŷn â mesurau lliniaru'n ymwneud â phathewod ar gyfer datblygu'r ysbyty arfaethedig yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n cyfarfod ar 16 Mawrth. Heb benderfyniad cadarnhaol, disgwylir y bydd y cydsyniad amlinellol presennol yn dod i ben ar 27 Mawrth. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn disgwyl ymgynghoriad ffurfiol. Yr adeg honno, byddwn yn cadarnhau ein safbwynt.

Materion Mewnol

Y Safon Iechyd Corfforaethol

62. Yn ystod mis Chwefror, llwyddasom i ddal gafaél ar ein Gwobr Arian ar gyfer y Safon Iechyd Corfforaethol. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn rhan o raglen "Cymru Iach ar Waith" Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cynnig fframwaith

ansawdd cenedlaethol a gwobr i gydnabod cyflogwyr sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant yn y gweithle.

63. Fe wnaeth yr asesydd annibynnol ganmol ansawdd ein tystiolaeth ategol a'r camau dilynol a gymerwyd gennym ar sail argymhellion a gyflwynwyd mewn asesiadau blaenorol. Yn ystod yr asesiad, cyfarfu'r asesydd ag aelodau'r Tîm Gweithredol a'r Grŵp Llesiant Staff, a gwylodd gyflwyniad yn sôn am iechyd meddwl. Roedd yr asesydd yn falch o nodi bod llesiant wedi cael ei ymwreiddio'n ddyfnach o lawer yn niwylliant ein sefydliad erbyn hyn o gymharu â'r asesiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2019. Argymhellodd y dylem anelu at y Safon Aur yn ein hasesiad nesaf. Bydd cymorth ac arweiniad parhaus gan y Tîm Gweithredol ynglŷn â materion llesiant yn elfen allweddol o'n llwyddiant parhaus.

Adnewyddu

64. Mae ein dull caffael mewn perthynas â chynllunio, adeiladu a gweithredu Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan CNC wedi'i ddiwygio yn dilyn sylwadau gan gydweithwyr yn y timau caffael a rheoli contractau. Rhennir y dull caffael yn ddau gam:
- Cam 1, Cynllunio – mae'r elfen hon wedi'i gosod ar dendr a disgwylw'n ddyfarnu'r tendr ddiwedd mis Mawrth / dechrau mis Ebrill;
 - Cam 2, Adeiladu a Gweithredu – bydd yr elfen hon yn cael ei gosod ar dendr ddiwedd 2023 / 24.

Mae'r cynnydd o ran cyflwyno Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan wedi bod yn arafach nag y gobeithiwyd oherwydd problemau'n ymwneud ag adnoddau yn nhîm y Gyflogres ac yn y tîm Adfywio. Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r gwaith gofynnol ar MyNRW a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mai.

65. Yn dilyn penderfyniad y Tîm Gweithredol i gyfuno ein swyddfeydd corfforaethol yng Nghaerdydd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i symud i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays (CP2) yng nghanol Caerdydd. Bydd yr aelodau hynny o staff sy'n gweithio yn Nhŷ Cambria a Phlas yr Afon ar hyn o bryd, ac a fydd yn gweithio yn CP2 yn y dyfodol, yn symud i'w swyddfa newydd yn ddiweddarach eleni. Cyn bo hir, byddwn yn lansio rhaglen gyfathrebu ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau y bydd ein cydweithwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac er mwyn gwneud yn siŵr y gellir symud yn ddidrafferth i'r lleoliad gwaith newydd.
66. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran dod o hyd i ganolfan weithredol addas yn ardal y De Ddwyrain / Canol y De. Rydym wedi gwneud yn fawr o'r cyfle i amrywio prydles bresennol Plas yr Afon er mwyn inni gael ychwaneg o amser i ddod o hyd i'r ganolfan fwyaf addas a rhoi digon o amser i'n cydweithwyr symud i'r gwasanaeth telemetreg ddigidol newydd. Cytunwyd y byddwn yn dal i feddiannu Plas yr Afon fel lleoliad depo tan fis Mehefin 2025, er y byddwn yn defnyddio llai o arwynebedd yr adeilad nag y gwnawn ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gyfathrebu â staff ein

depos dros y deuddeg mis nesaf i gadarnhau bod ein gofynion yn dal i fod yr un fath wrth inni nesáu at 2025.

Ein Llais / Our Voice

67. Fe wnaeth mwy na 1900 o staff lenwi arolwg staff Ein Llais / Our Voice – sef 76% o'n gweithlu ac 80% o'n cydweithwyr parhaol. Soniodd amrywiaeth o bobl o wahanol gyfarwyddiaethau ac o wahanol rannau o'r wlad am eu profiad o weithio i CNC. Roedd y rhain yn amrywio o bobl sydd wedi gweithio gyda ni ers llai na deuddeg mis i rai pobl sydd wedi gweithio i'r sefydliad ers mwy na deg mlynedd ar hugain.
68. Yn awr, bydd People Insight, ein cyflenwr arbenigol, yn dadansoddi'r atebion er mwyn gweld beth yw'r pethau da ynglŷn â gweithio i CNC a pha bethau y gallwn eu gwneud yn well. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod mis Ebrill, a'r bwriad yw rhannu'r canlyniadau gyda'n pobl ar ôl y Pasg.
69. Yna, byddwn yn blaenoriaethu'r camau y dymunwn eu cymryd i wella profiad ein staff a diogelu'r pethau da ynglŷn â'r sefydliad. Byddwn yn gwneud hyn trwy ymgysylltu â'n timau, y grŵp ymgynghori â staff a'n partneriaid yn yr undebau llafur. Bydd y gwaith hwn yn cael ei hwyluso'n fawr yn sgil yr amser, yr egni a'r gonestrwydd a fuddsoddodd ein staff yn yr arolwg.

Rhagolwg

Dydd Mercher 12 Ebrill – Cyfarfod Eithriadol y Bwrdd a Galwad Diweddariad y Bwrdd

Dydd Mawrth 18 Ebrill – Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Iau 27 Ebrill – Diwrnod Datblygu'r Bwrdd

Dydd Gwener 28 Ebrill – Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Gwener 5 Mai – Y Pwyllgor Ystad Tir

Dydd Mercher 10 Mai – Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Dydd Mercher 17 a Dydd Iau 18 Mai – Cyfarfod y Bwrdd

Dydd Mawrth 6 Mehefin – Digwyddiad Senedd: Lansio'r Cynllun Corfforaethol

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC)
Cyfeirnod y papur:	23-03-B06
Noddir y papur gan:	Peter Rigby – Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
Cyflwynir y papur gan:	Peter Rigby
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Yn y papur hwn, cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2023. Mae cofnodion y cyfarfod ar gael i ba bynnag aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb yn eu cael.

Diweddariad

Busnes Safonol y Pwyllgor

2. Gan fod un o'r aelodau wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor, gellir anfon awgrymiadau ar gyfer rhywun arall i gymryd ei le at Gadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth, i'w hystyried.

Arloesi

3. Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o statws cyfredol Arloesi, yn cynnwys gwaith Y Lab, Nesta, ym Mhrifysgol Caerdydd a Swyddfa Arloesi'r Sector Cyhoeddus (OPSI). Trafodwyd cynnwys y diweddariad, ac ystyriwyd y materion, yr heriau, y risgiau a'r ddynwedd gymdeithasol ymddygiadol sy'n perthyn i arloesi.
4. Dywedodd y Pwyllgor fod angen ymchwilio ymhellach i fecanweithiau, trwy blatfformau a gweithrediadau penodol yn y labordy; pyllau tywod, er mwyn annog cyfraniadau a dwyn gwahanol bobl ynghyd fel y gellir treulio amser yn trafod arloesi; hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai angen cynnal

trafodaeth bellach er mwyn pennu risgiau derbyniol ac annerbyniol, ynghyd â thrafod y risgiau a'r manteision sy'n perthyn i arloesi wrth gipio tystiolaeth.

5. Wrth drafod arloesi, cytunwyd y dylid canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol ac y byddai Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol newydd angen arloesi mewn perthynas â chyfrifoldebau CNC dros warchod a rheoli'r amgylchedd.

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

6. Rhoddwyd y diweddaraf ynglŷn â sefyllfa bresennol SoNaRR 2025. Cyflwynwyd y weledigaeth, yr amserlen a'r newidiadau o gymharu ag Adroddiad 2020.
7. Trafododd aelodau'r Pwyllgor y diweddariad ac fe'u cynghorwyd i ystyried y gwahanol randdeiliaid a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y modd mae'r Adroddiad wedi esblygu. [Dw i ddim yn siŵr ai derbyn cyngor ynteu rhoi cyngor mae'r Pwyllgor.]
8. Trafododd y Pwyllgor yr angen am ddulliau cyfathrebu gwahanol ar gyfer cynulleidfaoedd allweddol, a hefyd trafodwyd y cynllun gwe; darparwyd cyngor.

Dynodi Parc Cenedlaethol

9. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r Rhaglen Tirweddau Dynodedig, yn cynnwys strwythur y tîm, meini prawf yr ardal chwilio a'r fframwaith gwerthuso gyda'r ffynonellau tystiolaeth presennol a ddefnyddiwyd.
10. Cyflwynwyd gwaith yn ymwneud â Mapio Harddwch Naturiol Integredig Cymru Gyfan a thrafododd y Pwyllgor y broses ddynodi, y defnydd o dystiolaeth, yr angen am sail resymegol a'r modd y byddai tirweddau a morweddau'n cael eu hystyried yn y gwaith dadansoddi.
11. Dywedodd y Pwyllgor fod angen sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddir yn gadarn a bod penderfyniadau ynglŷn â'r ardaloedd yn cael eu cofnodi.

Eogiaid

12. Cyflwynwyd y diweddaraf ynglŷn â gwarchod a rheoli poblogaethau bach o eogiaid, lle tynnwyd sylw at risg difodiant; terfynau cadwraeth; cyfraddau difodiant a thystiolaeth. Trafododd y Pwyllgor y diweddariad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnig adborth ac argymhellion.
13. Rhoddwyd braslun o'r Cynllun Gweithredu er mwyn pennu pwysau a chamau gweithredu allweddol. Rhoddir blaenoriaeth i ymyriadau a fydd yn esgor ar yr effaith fwyaf.

Y Berthynas â'r Gymuned Academaidd

14. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r berthynas â'r gymuned academaidd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor yn pennu cyfleoedd trwy gyfrwng ysgoloriaethau ymchwil PhD. Mae angen trafod hyn ymhellach gyda'r gymuned academaidd ehangach.

15. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai ysgoloriaethau ymchwil yn cael eu hadolygu oddi mewn i Raglen Trawsnewid Busnes CNC. Mae trafodaethau pellach wedi'u trefnu gyda Llywodraeth Cymru i drafod Rhaglenni Hyfforddi Doethurol.

Dadansoddeg Data

16. Rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â dadansoddeg data yn CNC.



Papur Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	23-03-B07
Noddir y Papur gan:	Syr David Henshaw – Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y Papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ar 9 Chwefror a 7 Mawrth 2023.

Diweddariad

9 Chwefror

Diweddariad cyllid 2022-23

2. Cafodd aelodau'r pwyllgor ddiweddariad byr ar lafar ar berfformiad cyllideb 2022-23. Roedd y gyllideb ar y trywydd iawn i fod o fewn 1% i'r targed erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllideb 2023-24

3. Cyflwynwyd y dull a gymerwyd i gydbwyso cyllideb 2023-24 gan gynnwys trosolwg o'r rhagolygon cyllido a'r camau a gymerwyd i leddfu'r pwysau. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn gefnogol i'r dull a ddefnyddiwyd, gan awgrymu y dylid cynnwys diweddariadau'r Rhaglen TGCh fel rhan o'u cylch gwaith. Byddai cyllideb 2023-24 yn dychwelyd gerbron y Pwyllgor Cyllid i'w chymeradwyo ym mis Mawrth.

Cynigion codi tâl 2023-24

4. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y cynigion codi tâl gan gynnwys y dull gweithredu, y canlyniadau a'r newidiadau a wnaed i'r cynigion yn sgil yr ymgynghoriad. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y tîm yn enwedig yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r cynigion i'w cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

5. Byddai tîm newydd yn datblygu ac yn cynnal proses i bennu ffioedd yn flynyddol yn y blynyddoedd dilynol.

Trafodaeth am y gwersi a ddysgwyd o gynllun Rhydaman

6. Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo Cynllun Rhydaman, bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod y materion a'r broses ar gyfer rhaglennu prosiectau. Nodwyd rhai awgrymiadau ar sut i wella'r broses yn ogystal â sut i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o liniaru llifogydd.

Cynllun Corfforaethol

7. Darparwyd diweddariad ar ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, a nodwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru (LIC), yn enwedig ynghylch symleiddio dangosyddion a metrigau monitro. Croesawodd y Pwyllgor Cyllid y diweddariad a chawsant eu calonogi gan ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru.

7 Mawrth

Perfformiad y Gyllideb (Cyfnod 10 Ionawr)

8. Clywodd y Pwyllgor Cyllid y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol presennol CNC ac unrhyw risgiau'n ymwneud â gwariant. Trafodwyd y marchnadoedd pren a lefel y risg sydd gan CNC yn y maes hwnnw.

Cymeradwyaethau Bwrdd CNC i gael sêl bendith y Pwyllgor Cyllid

9. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid gymeradwyo tair cymeradwyaeth i'r Bwrdd.

Cyllideb 2023-24

10. Cyflwynwyd Cyllideb 2023-24 i'r Pwyllgor Cyllid ei chymeradwyo Roedd angen eglurhad am sawl elfen ac roedd rhagdybiaethau wedi'u gwneud wrth ddatblygu'r gyllideb.
11. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid gymeradwyo Cyllideb 2023-24 a'r argymhellion fel yr amlinellir yn y papur.

Seilos Ariannu

12. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod ffrydiau ariannu, y cyfyngiadau ariannu, a rhannu rhai argymhellion ar sut i chwalu rhai o'r rhwystrau rhwng seilos ariannu. Byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol.

Diweddariad y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Busnes

13. Tynnwyd sylw at y gwaith ar ddangosyddion strategol y Cynllun Corfforaethol. Roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylid datblygu'r dangosyddion dros y flwyddyn nesaf a bod y dangosyddion dangosfwrdd presennol yn cael eu defnyddio yn y cyfamser. Byddai hyn yn caniatáu amser i ddatblygu set gadarn o ddangosyddion strategol.

Gweithgareddau Masnachol

14. Trafododd y Pwyllgor Cyllid weithgarwch masnachol CNC gan gynnwys diweddaru'r Strategaeth Fasnachol a chymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai angen i benderfyniadau ar weithgarwch

masnachol fod yn dryloyw a bod modd eu cyfiawnhau dan Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol newydd.

Diweddariad am Drawsnewid Busnes

15. Cafwyd diweddariad ar gamau datblygu pob un o'r chwe rhaglen yn y Rhaglen Trawsnewid Busnes. Croesawyd y diweddariadau hyn gan y Pwyllgor Cyllid.

Diweddariad am Brosiect System Rhybuddion Llifogydd

16. Cafodd y Pwyllgor Cyllid ddiweddariad ar y pum prif faes gweithgaredd ar gyfer y Prosiect System Rhybuddion Llifogydd gan gynnwys recriwtio, gwiriad iechyd Swyddfa Rheoli'r Rhaglen a sicrhau partner integreiddio TGCh. Statws Coch, Oren, Gwyrdd (RAG) y Prosiect oedd Gwyrdd.

Rheoli Risg – SR01 – Adolygiad blynyddol cyllid annigonol

17. Cafodd Risg SR01- Cyllid Annigonol, rheolaethau a chamau gweithredu - ei diweddarau i adlewyrchu gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar y diweddariadau a'r sgorau presennol a tharged.

Diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid

18. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid gymeradwyo'r gwelliant i'r Cylch Gorchwyl a ddaeth â diweddariadau TGCh o dan eu cylch gwaith.

Cyfleoedd Llety Caerdydd

19. Cafwyd diweddariad ar gyfleoedd llety Caerdydd. Bu'r Pwyllgor yn trafod rhwymedigaeth CNC i weithredu mesurau lliniaru carbon ar draws yr ystad adeiledig.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC)
Cyfeirnod y papur:	23-03-B08
Noddir y papur gan:	Rosie Plummer – Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
Cyflwynir y papur gan	Rosie Plummer – Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
Diben y papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno diweddariad ynglŷn â materion y dylid tynnu sylw holl aelodau'r Bwrdd atynt yn nhyb y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023.

Diweddariad

Tirweddau Cymru

2. Cyflwynodd y Prif Gyngorydd ar gyfer Tirweddau Gwarchoddedig y diweddaraf ynglŷn â chyfarfod diwethaf Tirweddau Cymru, a gynhaliwyd ym mis Ionawr. Trafodwyd cyflwyniad yn ymwneud â Natur a Ni; yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth; a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd Seminar Tirweddau Cymru yn cael ei chynnal ar 9 a 10 Mawrth a bydd yn canolbwyntio ar yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.

Tirweddau Dynodedig

3. Cyflwynodd y Prif Gyngorydd ar gyfer Tirweddau Dynodedig y diweddaraf. Mae tîm y rhaglen wedi'i benodi a chyflwynwyd y maes chwilio cyfredol yng nghyfarfod mis Ionawr y Bwrdd.

Y Diweddaraf am Ddeddfwriaeth

4. Cyflwynwyd trosolwg i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig o ddeddfwriaeth y dylai CNC fod yn ymwybodol ohoni. Dosbarthwyd y papur hwn wedyn ymhlith aelodau'r Bwrdd, er gwybodaeth; ac ychwanegwyd eitem at agenda Rhagolwg y Bwrdd.

Y Diweddaraf am y Rhaglen Safleoedd Gwarchoddedig

5. Cyflwynwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor ardaloedd Gwarchoddedig ynglŷn ag amryfal raglenni CNC gogyfer dod â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) tirol i gyflwr mwy ffafriol. Mae CNC wedi sefydlu nifer o raglenni er mwyn ceisio atal a gwrthdroi'r dirywiad yng nghynefinoedd a rhywogaethau'r tir.
6. Trafododd a nododd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig y gwahaniaeth rhwng y buddsoddiadau ariannol gwerthfawr a sylweddol a'r gwaith monitro ar safleoedd gwarchoddedig. Hefyd, trafodwyd faint o adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer gwaith yn y dyfodol er mwyn cyrraedd graddfa Rhaglen LIFE, o gofio y bydd arian yr UE yn dod i ben.

Budd Net i Fioamrywiaeth

7. Cyflwynwyd trosolwg o Enillion Net i Fioamrywiaeth, rôl metrigau, sut y'u defnyddir, a'r cysyniad datblygol ar gyfer bioamrywiaeth yng nghyd-destun Cymru.
8. Mae Budd Net i Fioamrywiaeth yn gysyniad a ddaw i'r amlwg ym Mholisi Cynllunio Cymru 11. Mae ei darddiad a'i egwyddorion yn debyg i darddiad ac egwyddorion Enillion Net i Fioamrywiaeth.
9. Esboniwyd y cysyniadau sydd wrth wraidd Budd Net i Fioamrywiaeth ac Enillion Net i Fioamrywiaeth a'r modd y gall CNC gyfrannu at ddatblygiadau. Nodwyd bod angen adolygu realaeth yr hyn y gellir ei gyflawni o safbwynt cynllunio. Disgwylir y bydd fersiwn ddiweddarach o Bolisi Cynllunio Cymru ar gael maes o law. Bydd y fersiwn hon yn egluro'r cysyniadau a'r dulliau gweithredu yn gliriach.

Hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – Protocol Tir CNC

10. Nodwyd bwlch yn y broses o ran ystyried ac ymateb i hysbysu, ail-hysbysu a dadhysbysu tir yn SoDdGA pan fo CNC yn berchen ar dir, neu'n meddiannu tir, o fewn ffiniau'r safle.
11. Cynigiwyd y dylid cynnal adolygiad yn ymwneud â chwmpas y dulliau y gallai CNC eu defnyddio i fynd i'r afael â'r bwlch hwn, ac y dylid ymgynghori'n ehangach ymhlith amryfal feysydd ledled CNC. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ehangach gyda'r staff y gallai hysbysu SoDdGA effeithio ar eu gwaith, megis y tîm Rheoli Tir.
12. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod drachefn yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig yn y dyfodol.

30 erbyn 30 – Y Diweddaraf

13. Cyflwynodd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth dri o argymhellion y dylid bwrw ymlaen â nhw yn syth, sef: ymestyn ac ehangu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur; y Map Rhwydweithiau Natur a nodi cyfleoedd i gysylltu cynefinoedd â'i gilydd; a chreu porth er mwyn i randdeiliaid allweddol allu cael mynediad uniongyrchol at heriau a bennir ar safleoedd dynodedig CNC.

14. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen cynnwys dyheadau gwaith '30 erbyn 30' yn nyheadau CNC yn y Cynllun Corfforaethol.

Papur Bwrdd

Dyddiad y cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyfeirnod y papur:	23-03-B09
Noddir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y papur gan:	Bronwen Martin, Cyngorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y papur	Gwybodaeth

Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Caiff cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn cynnig cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi materion sydd o ddiddordeb cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddariad

Cyfarfod 13 Mawrth 2023

2. Bydd cyfarfod cyntaf Fforwm Rheoli Tir Cymru yn 2023 yn cael ei gynnal ddydd Llun 13 Mawrth. Nid yw'r agenda wedi'i chadarnhau eto, ond bydd y cyfarfod yn cynnwys diweddariad llafar yn ymwneud ag Afancod, Diweddariadau CNC a diweddariadau gan sefydliadau sy'n aelodau o'r Fforwm.
3. Anogir yr aelodau i awgrymu eitemau posibl ar gyfer yr agenda, ynghyd â phynciau trafod.
4. Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

- Prif ddiben Is-grŵp y Fforwm yw pennu cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal sector ffermio ffyniannus trwy ddilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi, a buddsoddi), a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.
- Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd Is-grŵp y Fforwm bob mis.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariadau

Cyfarfod 23 Ionawr 2023

- Bu cryn drafod ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynllun trwyddedu arfaethedig a lanswyd ar 25 Tachwedd 2022 ac a ddaeth i ben ar 17 Chwefror 2023. Anogodd Llywodraeth Cymru y grŵp i gymryd rhan yn y broses ymgynghori a chyflwynwyd trosolwg byr o'r amserlen ar gyfer y dyfodol.
- Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad byr yn ymwneud â'r broses Mesurau Amgen.
- Yn ystod y cyfarfod, cafwyd cyflwyniad yn ymwneud â'r Prosiect Llaeth. Cyflwynodd Caroline Moscrop (CNC) y diweddaraaf am y prosiect, y disgwylir iddo ddod i ben yn ystod mis Mawrth 2023.
- Rhannodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraaf gan eu sefydliadau, gan gymryd rhan wedyn mewn trafodaeth 'rhagolwg'. Bu hwn yn gyfle i'r grŵp drafod eitemau agenda ar gyfer y dyfodol, cyfarfodydd yn y cawd a lleoliadau posibl y gellid ymweld â nhw, yn ogystal â rhannu syniadau ynglŷn â'r hyn y gall y grŵp ei gyflawni yn 2023/2024.

Cyfarfod 29 Chwefror 2023

- Ymunodd John Owen, Gelli Aur (Coleg Sir Gâr) â'r cyfarfod er mwyn rhoi cyflwyniad dilynol yn ymwneud â Phrosiect Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi.
- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru a CNC ddiweddariad llafar yn ymwneud ag adnoddau ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.
- Cyflwynwyd y grŵp i waith y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Esboniodd Ieuan Stephen Davies (CNC) ddiben y grŵp a rhoddodd drosolwg o'r nodau a'r amcanion. Bydd y grŵp hwn yn rhoi gwybodaeth a manylion am gynnydd i Is-grŵp y Fforwm er mwyn atal unrhyw ddyblygu.
- Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf Is-grŵp y Fforwm ddydd Llun 27 Mawrth 2023.
- Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y Papur:	Fforwm Pysgodfeydd Cymru
Cyfeirnod y Papur:	23-03-B10
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd
Paratowyd y Papur gan:	Ben Wilson, Prif Gyngorydd Pysgodfeydd; Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth

Cefndir

1. Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid pysgodfeydd a sefydliadau anllywodraethol rannu tystiolaeth a chyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy yma yng Nghymru.
2. Cylch gwaith y grŵp yw:
 - a. Cynrychioli'r ystod o randdeiliaid sydd â buddiant yn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.
 - b. Rhoi cyngor strategol i CNC gan adlewyrchu barn buddiannau pysgodfeydd. Rhannu cyngorion CNC â Llywodraeth Cymru (LIC), gan gynnwys datblygu polisi a strategaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd.
 - c. Adolygu perfformiad pysgodfeydd a gwaith cysylltiedig CNC i sicrhau bod pysgotwyr a buddiannau pysgodfeydd yn gwybod bod incwm trwydded pysgota â gwialen a chyllid eraill yn cael eu defnyddio er y budd gorau er mwyn helpu i gyflawni dyletswydd pysgodfeydd statudol CNC.
 - d. Ystyried effaith ecolegol, biolegol ac economaidd materion newydd a datblygol sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd.

- e. Helpu i ledaenu gwybodaeth gan CNC ac eraill i fuddiannau pysgota a physgodfeydd.
- f. Rhoi adborth clir o fuddiannau pysgota a physgodfeydd i CNC a hwyluso darpariaeth gwybodaeth i'r buddiannau hynny.
- g. Nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a chyllid newydd.
- h. Cefnogi gwaith sganio'r gorwel ar gyfer datblygiadau cyfleoedd, a risgiau newydd disgwylid, a chodi ymwybyddiaeth o broblemau ehangach rheoli pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol, er enghraifft pysgodfeydd morol.

Diweddariad

3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 31 Mawrth 2023.
4. Croesawyd aelodau newydd i'r grŵp:
 - a. Sara Sherratt sydd bellach yn ysgrifennydd y grŵp
 - b. Nigel Davies sy'n ymuno â'r Fforwm ac yn cynrychioli Grŵp Pysgodfeydd Lleol Ceredigion
5. Adolygodd y fforwm ddiweddariadau i'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

6. **Darpariaeth Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol Dŵr Cymru ar gyfer pysgodfeydd**

Bu Tony Harrington a Margot Mear o Dŵr Cymru yn trafod eu huchelgeisiau ar gyfer y blynyddoedd nesaf o safbwynt sut maen nhw'n mesur eu heffaith amgylcheddol drwy wella eu hasesiadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr (WFD) dan Gynllun Rheoli Asedau 8 (AMP8).

7. **Poblogaethau Eogiaid Bach**

15. Rydym wedi manteisio ar yr Ymarfer Llinell Sylfaen i ystyried goblygiadau ariannol yr Amcanion Llesiant ar lefel strategol. Byddwn yn newid ein trefniadau Llywodraethu i roi ffocws mwy clir ar gynllunio a blaenoriaethu buddsoddiad yn flynyddol a sicrhau goruchwyliaeth ac aliniad ein hadnoddau â chyflawni'r Amcanion Llesiant. Ategir hyn gan newidiadau i'n prosesau busnes a chynllunio ariannol a rheoli perfformiad flynyddol.
16. Mae'r adolygiad o lywodraethu'n mynd i'r afael â nifer o bwyntiau problemus sy'n gysylltiedig â'r strwythur llywodraethu a'r ffyrdd o weithio presennol.
17. Cyflwynir sawl newid llywodraethu ym mis Ebrill, gan gynnwys neilltuo Cyfarwyddwr i bob Amcan Llesiant er mwyn rhoi trosolwg a sicrwydd o gyflawni. Bydd y Tîm Gweithredol yn gwahanu eu gwaith trafodiadol oddi wrth eu ffordd o feddwl strategol, tymor hwy; bydd y Grŵp Tîm Arwain yn pontio i fforwm ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rhannu negeseuon allweddol ar draws meysydd gweithredol a bydd Grŵp Cynllunio ac Adnoddau newydd yn darparu fforwm ar gyfer cynllunio a blaenoriaethu integredig ledled y sefydliad.
18. Bydd sawl newid arall yn dod i rym o ddechrau mis Ebrill er mwyn helpu i ymwreiddio'r Cynllun Corfforaethol newydd yn ein brand a'n gwaith cyfathrebu.
19. Fel rhan o waith adnewyddu ein brand, bydd cyfres o gynhyrchion newydd yn cael eu cyflwyno i'w defnyddio gan ein cydweithwyr a'r Bwrdd. Bydd y gyfres yn cynnwys stamp a thôn llais newydd, templedi diwygiedig, troedynnau e-bost cyson, brand cyflogwr ar ei newydd wedd a sesiynau cynefino a hyfforddiant i gydweithwyr. Bydd ein brand yn cael ei gyflwyno i'n swyddfeydd hefyd.

Bydd adnewyddu ein brand yn rhan ganolog o'r gwaith o bwysleisio bod hon yn bennod newydd yn hanes CNC, gan ein helpu i ymgysylltu'n well â'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid, helpu i godi'n proffil gyda'r cyhoedd a chyflawni ein hamcanion yn y pen draw.

Y Camau Nesaf

20. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Bwrdd, byddwn yn gofyn am gyfundeb Gweinidogol.
21. Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad lansio meddal i'n pobl yn ystod wythnos 27 Mawrth, gyda chyfres o weminarau wedi'u harwain gan ein Prif Swyddog Gweithredol a'n Tîm Gweithredol, a darn byr yng nghylchlythyr Cyfoeth i randdeiliaid i dynnu sylw at y ffaith bod y Cynllun yn fyw. Bydd ein prif gyfle i hyrwyddo a chyfathrebu'n ehangach yn allanol mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Mehefin.
22. Mewn digwyddiad dros ginio yn y Senedd ar 6 Mehefin, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun gyda rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr etholedig. Fe'i cynhelir gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, yng nghwmni aelodau'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, Penaethiaid Lle ac aelodau perthnasol eraill y tîm.
23. Rydym wrthi'n paratoi cyfres o ddeunyddiau i helpu'r Tîm Arwain wrth iddyn nhw ymgysylltu â'u timau gydol mis Ebrill a mis Mai, mewn cyfarfodydd Cyfarwyddiaeth, Adran, Grŵp a Thîm yn ogystal â thrafodaethau unigol Sgwrs. Penllanw hyn fydd cyfres o ddigwyddiadau i gydweithwyr ledled Cymru ym mis Mehefin.
24. Bydd is-grŵp y Bwrdd yn arwain y gwaith o ddatblygu cyfres o ddangosyddion ar gyfer pob Amcan Llesiant, gan adrodd i Weinidogion ymhen chwe mis. Hefyd, byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio a threfnu'r camau i'w cymryd i lywio'r broses cynllunio busnes flynyddol, gan gynhyrchu cynllun blynyddol i'r Bwrdd graffu arno ym mis Gorffennaf 2023.

Argymhelliad

25. Cymeradwyo'r Cynllun: Cynllun Corfforaethol CNC 2030 – Natur a Phobl yn ffynnu gyda'i gilydd

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 – Datganiad Llesiant

Atodiad 2 – Cynllun Corfforaethol CNC 2030 – Natur a Phobl yn ffynnu gyda'i gilydd



Our corporate plan to 2030 – Nature and people thriving together

Well-being statement

Introduction

This Well-being statement sets out how our Well-being objectives meet our statutory duty under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and should be read alongside our corporate plan.

It explains:

- How our well-being objectives were set, including how we have applied the five ways of working under the sustainable development principle.
- How our well-being objectives maximise our contribution to all seven of Wales' long-term well-being goals as specified in the Act.
- How our work will provide multiple benefits for people, climate and nature.

We have included additional information on our vision and mission, and considered the findings of the first Future Generations Report published by the Future Generations Commissioner in May 2020.

We have also highlighted how other elements of our work, in particular the [State of Natural Resources Report \(SoNaRR\) 2020](#) and the ongoing [Nature and Us](#) programme have informed the development of our well-being objectives and our corporate plan.

Our vision

Nature and people thriving together

Our mission

Focussing our passion and collective action towards

- nature's recovery

- resilience to climate change
- minimising pollution

through the sustainable management of our natural resources.

Our well-being objectives to 2030

By 2030 in Wales:

- nature is recovering
- communities are resilient to climate change
- pollution is minimised

By focussing on these three well-being objectives *together*, we will protect and enhance the wider well-being of people and communities:

- Nature is the foundation stone of Wales' well-being - supporting community cohesion and resilience, strong local economies, employment, learning, and mental and physical health.
- Nature underpins vibrant rural communities, with a direct relationship between nature and sustainable agriculture, woodlands and those that manage the land. This relationship must be nurtured if Wales is to maintain clean water, productive soils, food supplies and fibre.
- Thriving nature stores carbon and reduces the risks and impacts of a warming world. Many actions to support the recovery of nature also help us adapt to and mitigate against climate change.
- Minimising pollution and waste has a direct benefit to the health and resilience of people and nature, with industry and business directly benefiting by improving their efficiency, effectiveness, helping to reduce costs and protect jobs and livelihoods.

The evidence tells us that by targeting action on these three well-being objectives, wider opportunities and benefits will flow for:

- mental and physical well-being
- lifelong learning and creativity
- job creation and skills

In turn, these will also contribute to the seven well-being goals for Wales.

The ambition running through all our efforts will be to ensure that nobody gets left behind as Wales pursues action for nature and climate. To exacerbate or to widen existing inequalities in our communities would be at odds with the commitments made within the Programme for Government. Our ways of working will need to evolve to ensure that these wider benefits are considered from the outset.

For the lifetime of this plan, and through applying our purpose, we will sharpen our focus on social and environmental justice, on equity and inclusion, making sure delivering for rural and urban communities across Wales is at the heart of everything we do.

How our well-being objectives were set

Our well-being objectives have been developed in collaboration with our colleagues and partners following the publication of the Programme for Government, and reflect our priorities to tackle the climate and nature emergencies and to minimise pollution.

We have carefully considered recommendations set out in the Future Generations Report 2020, and applied the five ways of working (sustainable development principle).

In setting our well-being objectives, we have taken into account the global, UK and Welsh contexts within which we are working, reflecting on:

- Landmark international reports from the UN that have informed preparations for COP26, COP27 and COP15, including [Making Peace with Nature](#), as well as the outcomes from the UN climate and nature conferences and reports from IPBES and the IPCC.
- Programme for Government and Welsh Government Deep Dives for biodiversity, woodland creation and energy.
- [SoNaRR 2020](#)
- [NRW's Area Statements](#)
- PSBs' (Public Services Boards) Well-being plan process
- [Nature and Us](#)

From the outset, our Board members and Executive Team have provided strong leadership and guidance as the plan has developed.

We have also benefitted from the feedback received from Welsh Government, from colleagues and partners, taking a range of opportunities to bring people together to share their reflections, and test our ideas at internal and external events and via staff webinars.

We ran two online surveys – the first to gain insight into how we should frame our well-being objectives, and the second to seek feedback on our proposed vision, mission and the clarity of our newly-drafted well-being objectives.

Considering the synergies between our own Area Statements and the Well-being plans in development by the PSBs, has helped us identify multiple benefits and opportunities for collaboration and integration.

The Nature and Us national conversation on what future we want for nature, has been running alongside this process. It has contributed to our thinking about the longer-term, and the impacts of the climate and nature emergency on different communities.

The outcomes of the first phase of this work put climate change, species decline and pollution as the top three issues that people were concerned about in Wales.

By hearing different voices from across Wales, it is clearer than ever that we need to bridge across environmental, social and economic factors and divides. These voices shape a vision for Wales which provides a focal point against which we can continue to review progress.

In setting our well-being objectives, we have recognised that we need to challenge and adapt how we work in the future, moving further into an advocacy role and taking steps to be bold and innovative in our ambitions to achieve multiple benefit solutions to the issues we face.

Our well-being objectives are intentionally set at a high level and are interlinked, recognising that actions we take to address one well-being objective will usually contribute to meeting another, or even *all* objectives. The steps to take are clear and intended to be SMART and outcome-focussed to enable us to monitor and demonstrate that we are making a difference.

The Sustainable Development principle and the five ways of working

The well-being objectives have been set in accordance with the sustainable development principle and the five ways of working.

Long-term, our well-being objectives recognise the key current and future challenges facing Wales from the climate and nature emergencies, and from pollution. Setting well-being objectives to 2030 with a view to 2050 was central to our thinking, and linked to local considerations and key national and international targets. The findings from the Nature and Us programme has also provided key insights, enabling us to consider potential scenarios and challenges Wales may face in the future.

Our well-being objectives have been designed to **prevent** nature's decline and, climate change getting worse and pollution from occurring in the first place.

SoNaRR 2020 has provided us with a strong foundation of evidence that identifies where the challenges are, what we can do ourselves, and how we need to work with others to make sure our environment and our communities in every part of Wales can thrive in the future.

By focussing on our three well-being objectives *together*, in an **integrated** way, we will support the wider well-being of people and communities right across Wales.

Across all areas of our work, we have also considered how we can deliver multiple benefits across all three well-being objectives.

In the corporate plan, we document how action on nature-based solutions drive benefits for nature, climate and people. Understanding and optimising these multiple benefits will be vitally important if we are to achieve our vision of nature and people thriving together. Targeting our resources and working with partners to optimise these benefits will be critically important over the lifetime of this plan, and will inform our annual business planning and prioritisation.

We have worked **collaboratively** with colleagues across NRW, with our Board, and with our partners to ensure our corporate plan identifies synergies, and presents a range of opportunities

where we can collaborate closely with other organisations in the future. We will also build on our existing relationships and partnerships already forged through PSBs and our Area Statements.

Throughout the development of our well-being objectives, we have **involved** our colleagues and partners at a national and local level, providing them with the opportunity to feed back and provide detailed comment as they have evolved.

Our well-being objectives reflect that we will need to involve people and partners in decision-making where our work affects them. The ongoing engagement we will have with people who live and work in our communities, and with our partners, will ensure that the insight they provide is reflected in how we deliver our work.

Taken together with the commitments we have made in our work with PSBs in the development of their Well-being plans, and our engagement with communities through our Area Statements, our well-being objectives will help build on progress towards the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales. The sustainable development principle is firmly embedded in our well-being objectives and in our future ways of working.

Maximising our contribution to the seven well-being goals

Our well-being objectives focus on the climate and nature emergencies and minimising pollution, and reflect where we can make the greatest individual, organisational and collective contribution to achieving them.

The pride and confidence we have in using Welsh in our work has been at the forefront of our minds as this corporate plan has evolved, ensuring our vision, mission and values are written in a way that resonates in the Welsh and English languages.

Taken together, we are contributing to all seven well-being goals as illustrated by the examples provided below.

Well-being Objective / Well-being Goal	By 2030 in Wales Nature is recovering	By 2030 in Wales Communities are resilient to climate change	By 2030 in Wales Pollution is minimised
A prosperous Wales	<ul style="list-style-type: none"> Building the capability and capacity of the Welsh workforce to support nature's recovery through working with others to advocate for green skills and jobs Delivering multiple benefits and opportunities for nature, people and the rural economy through supporting Welsh Government in the development and implementation of the Sustainable Farming Scheme, providing evidence and expertise 	<ul style="list-style-type: none"> Supporting the development of sustainable offshore and onshore renewable energy through our evidence, advice and regulation, building a common understanding of the standards required in the statutory planning and permitting processes Securing the timber producing potential of the Welsh Government Woodland Estate through providing harvestable timber meeting global standards of sustainable forest management 	<ul style="list-style-type: none"> Minimising pollution and waste through working collaboratively with industry and others to identify how legislation and Welsh Government policy need to change Stimulating supply chains to use timber grown in Wales through using our position as the dominant supplier of sustainably harvested timber in Wales
A resilient Wales	<ul style="list-style-type: none"> Securing the effective protection and management of at least 30 per cent of land, freshwater and sea for nature through identifying opportunities to enlarge and better connect the series of Sites of Special Scientific Interest (SSSI) Protecting species at the greatest risk of extinction through using our advisory and regulatory tools, working in partnership and monitoring to evaluate effectiveness 	<ul style="list-style-type: none"> Restoring peatland through the National Peatland Action Programme (NPAP) working with delivery partners, including on the land in our care using a range of advisory and regulatory tools, financial incentives and undertaking monitoring to evaluate effectiveness Stimulating restoration of marine and coastal habitats such as saltmarsh, sand dunes, sea grass and native oyster reef through working with delivery partners, using a range of advisory and regulatory tools, financial incentives and undertaking monitoring to evaluate effectiveness 	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring the sectors we regulate, including illegal non-permitted activities, take effective action to control and minimise pollution and increase resource efficiency through the provision of advice and guidance that effectively sets out the standards required to ensure compliance Avoiding pollution and waste through exploring innovative approaches using all our regulatory tools, including experimental powers

A healthier Wales	<ul style="list-style-type: none"> Engaging with people to take action creating opportunities for being in, learning about and becoming advocates for nature and climate through working with the education, physical activity and health sectors Scaling up nature-based solutions in urban and rural areas to build connectivity between habitats, securing multiple benefits for people and nature through working with planners and developers to embed in developments 	<ul style="list-style-type: none"> Reducing the risk to life from flooding to people and communities from main rivers, reservoirs and the sea, through the delivery of flood alleviation schemes Identifying opportunities to optimise the collective action and impact of the public sector through using SoNaRR and Area Statements to work with the public service boards, public health and local authorities 	<ul style="list-style-type: none"> Improving poor local environmental quality through working with local authorities to understand the issues and develop shared action plans Minimising harm from environmental pollution incidents through preparing for and responding to priority incidents as a Category 1 responder
A more equal Wales	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring local communities benefit from equitable access to green and blue spaces and act responsibly through providing guidance and support, working collaboratively with strategic partners such as Visit Wales and Local Authorities Ensuring social and Environmental justice, equity and inclusion inform and strengthen our decision making for nature's recovery through the review of current mechanisms and development of guidance 	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring all future developments are resilient to climate change through making the case for changes to development plans and advising on planning applications Ensuring water companies maintain security of water supply to customers through scrutinising and reporting to Ministers on their water resource management plans, drought plans and infrastructure investment plans 	<ul style="list-style-type: none"> Improving poor local environmental quality through working with local authorities to understand the issues and develop shared action plans Improving air quality for people and nature through minimising and eliminating emissions to air in our regulation of industry
A Wales of cohesive communities	<ul style="list-style-type: none"> Involving different communities and sectors in our work, through applying behavioural insights to inform our approaches Ensuring a diverse range of people are taking action for nature through sharing the vision and outcomes from Nature and Us to expand our networks and increase involvement. 	<ul style="list-style-type: none"> Reducing the risk to life from flooding through issuing flood warnings that meet the changing needs of communities, maintaining and improving the 24/7 Flood Warning Service Building the resilience of communities, Local Authorities and businesses to current and future flood risk through improving and sharing our evidence to stimulate action 	<ul style="list-style-type: none"> Engaging with people to take action, creating opportunities for being in, learning about and becoming advocates through working with the education, physical activity and health sectors Creating opportunities for individual and collective action on nature through

			delivering a sustained communications campaign
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh Language	<ul style="list-style-type: none"> Accelerating action for nature's recovery at a landscape scale through sharing our evidence and expertise with National Parks, Areas of Outstanding Natural Beauty and other partners Inspiring people to take action, empowering and transforming their relationship with nature through working with creative industries and the cultural sector 	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring a diverse range of people are taking action for climate through sharing the vision and outcomes from Nature and Us to expand our networks and increase involvement. Engaging with people to take action, creating opportunities for being in, learning about and becoming advocates for nature and climate through working with the education, physical activity and health sectors 	<ul style="list-style-type: none"> Creating opportunities for individual and sector specific action through delivering a sustained communications campaign Involving different communities and sectors in our work, through applying behavioural insights to inform our approaches
A globally responsible Wales	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring nature's recovery is driven through our supply chains, grant programmes and land management agreements through inclusion in our procurement and funding frameworks Ensuring partners are delivering against our strategic commercial approach through nature positive certification in commercial products and services 	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring actions for climate are driven through our supply chains, grant programmes and land management agreements through inclusion in our procurement and funding frameworks Increasing energy efficiency and deployment of renewables in all our buildings and assets through reviewing current systems and taking action 	<ul style="list-style-type: none"> Ensuring action for pollution minimisation is driven through our supply chains, grant programmes and land management agreements through inclusion in our procurement and funding frameworks Ensuring that NRW's financial and business decisions integrate zero pollution and waste through applying the lessons learnt from others on effective tools and frameworks

Our enabling services – our core corporate activities

Colleagues providing essential services in procurement, governance, communications and finance - our enabling services - have a significant role in helping us both meet our well-being objectives and contributing to the seven well-being goals.

In developing the well-being objectives and steps to take, our enabling services have been fully involved, identifying their specific contributions. In this section we highlight some of their specific commitments as referenced in the corporate plan.

Effective workforce planning will be essential to delivering our corporate plan and meeting our well-being objectives. We will be investing in the skills and capability of our colleagues through the provision of a training programme for climate and nature literacy.

We recognise that we can also do more to harness our purchasing power to make an impact. We spend between £90-100m each year on goods and services across Wales, and 80% of our organisational carbon footprint is rooted in our supply chain.

We will go further to ensure our procurement and funding frameworks drive positive action across our supply chains to achieve outcomes that do not harm the natural environment in the process, both here in Wales and overseas.

We will be ensuring that NRW's financial and business decisions integrate nature's protection and recovery, climate change and zero pollution and waste through applying the lessons learnt from others on effective tools and frameworks.

Our Adfwyio programme is also enabling us to manage our assets more effectively by allowing us to explore how we can reduce our costs and carbon footprint by rationalising our portfolio of buildings across Wales, as well as reducing the carbon emissions of our fleet. We also want to maximise the reuse, recycling and recovery of materials through monitoring and taking action when replacing key items such as ICT equipment and PPE.

We recognise that this new focus on three well-being objectives will require changes to the way we work, and will take time to embed.

Success will only come when we challenge and evolve established working practices, and take every opportunity to innovate and improve. To help drive this each well-being objective will have an accountable Director providing vision, momentum and assurance to the wider Executive Team and Board. A new strategic risk register will also be developed to reflect the new well-being objectives and ways of working.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y papur:	Adnabod a gwarchod poblogaethau eogiaid bach
Cyfeirnod y Papur:	23-03-B13
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Paratowyd y Papur gan:	Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd
Cyflwynir y Papur gan:	Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd
Diben y Papur	Trafodaeth / Gwybodaeth
Crynodeb:	<p>Mae'r papur hwn yn crynhoi Adroddiad a gomisiynwyd gan CNC ar adnabod a nodweddu poblogaethau eogiaid bach, y mae eu dirywiad tuag at ddifodiant posibl yn gofyn am gadwraeth a chamau lliniaru. Mae'r llwybr dirywiad presennol yn adlewyrchu cyfuniad o effeithiau byd-eang (e.e. newid hinsawdd) ac effeithiau afonydd penodol a Chymru gyfan a allai arwain at golli'r rhywogaeth hon o fewn blynyddoedd i ddegawdau. Yn yr un modd, mae tystiolaeth o'r tueddiadau y gall rheolaeth effeithiol stopio a gwrthdroi'r dirywiad.</p> <p>Mae eog a sewin yn rhywogaethau eiconig sydd ag arwyddocâd amgylcheddol, economaidd a diwylliannol enfawr yng Nghymru. Ar ben hynny, maen nhw'n ddangosyddion allweddol o gyflwr ein hamgylchedd dyfrol ac mae eu dirywiad yn tynnu sylw at y pwysau sy'n effeithio ar ddŵr croyw, ac ecosystemau morol ar draws gogledd yr Iwerydd.</p> <p>Yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol newydd, mae'r eitem hon yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ac yn gofyn am farn ar gamau rheoli effeithiol i CNC a'i bartneriaid er mwyn gwrthdroi dirywiad y rhywogaeth eiconig hon sydd ar reng flaen argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.</p>

Gwaith craffu gan:	Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) ar 31 Ionawr Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC) ar 21 Chwefror
---------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------

Cefndir

- Yng ngoleuni'r dirywiad cyflym parhaus mewn stoc eogiaid a sewin, comisiynodd CNC Adroddiad Tystiolaeth (Rhif 674) i nodi a nodweddu poblogaethau eogiaid bach er mwyn helpu i'w gwarchod a'u rheoli.
- Rhannwyd uchafbwyntiau'r Adroddiad gyda Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) ar 31 Ionawr 2023 a'r Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC) ar 21 Chwefror 2023.
- Roedd yr adroddiad yn asesu sut y gellir adnabod poblogaethau bach neu beryglus o fach o'u demograffeg neu gymeriad genetig, a thrwy hynny weithredu fel "fflagiau coch" i sbarduno camau cynyddol.
- Mae'r Adroddiad yn gwneud naw casgliad ac argymhellion allweddol - wedi eu haralleirio yma mewn termau lleyg:
 - Mae sewin ac eogiaid yng Nghymru yn gostwng ar gyfradd ddigynsail. Mae model rhagfynegi yn dangos y gallai llawer o boblogaethau fod mewn perygl o ddifodiant o fewn blynyddoedd i ddegawdau dan yr amodau presennol. Gall eogiaid ddiflannu'n llwyr o rai afonydd yng Nghymru o fewn y deng mlynedd nesaf, gan gynnwys afon Teifi, lle mae eogiaid yn nodwedd o'i dynodiad Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).
 - Serch hynny, mae enghreifftiau yng Nghymru lle mae poblogaethau coll o eogiaid a sewin, ac enghreifftiau o stociau a oedd wedi'u disbyddu gynt, wedi adfer o lefelau isel ar ôl mynd i'r afael â rhwystrau mudo a llygredd diwydiannol. Mae hyn yn dangos y gall poblogaethau adfer o ddifodiant llwyr os caiff cyfyngiadau amgylcheddol eu dileu, ac os yw poblogaethau cyfagos yn parhau'n iach. Fodd bynnag, mae llawer o'r afonydd adferol hyn wedi gweld dirywiad dilynol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
 - Mae tystiolaeth am faint poblogaeth y trothwy isaf absoliwt (yr hyn a elwir yn 'effaith Allee') yn gyfyngedig, ond does dim digon o ddata i fod yn sicr.
 - Gall rhai afonydd Cymru weithredu fel 'metaboblogaethau' – h.y., afonydd lle gall pysgod symud yn naturiol, a allai gynnig rhywfaint o gyd-gadernid a'r potensial i adfer. Fodd bynnag, gallai effeithiau newid yn yr hinsawdd mewn cynefinoedd morol a dŵr croyw fod yn drech nag unrhyw achos o gyd-gadernid.
 - Mae angen deall sut a pham mae poblogaethau'n cyfangu, ac a ydyn nhw'n gwneud hynny oherwydd pwysau cyffredin. Mae tueddiadau poblogaeth yn dangos bod yr eog a'r sewin yn ymateb i gymysgedd o bwysau cyffredin (e.e., dylanwad yr hinsawdd) a phwysau lleol dalgylch benodol, fel ansawdd dŵr, ansawdd cynefinoedd a rhwystrau symud.

- f. Hefyd, mae angen deall sut mae poblogaethau bach yn adfer, ac a yw adferiad yn fwy tebygol o ddigwydd oherwydd bod poblogaethau wedi eu cysylltu rhwng afonydd trwy wasgariad.
 - g. Mae data o ddalfeydd gwialen ac arolygon pysgod ifanc yn swnllyd, yn enwedig ar gyfer poblogaethau bach. Mae efelychiadau'n dangos y gall fod angen blynyddoedd lawer i ganfod dirywiad eogiaid a sewin, a allai gyfyngu ar eu gwerth fel 'fflagiau coch' er mwyn sbarduno camau gweithredu brys. Gallai dulliau modelu ychwanegol o boblogaethau a data amgylcheddol helpu i ddiagnosisio'r rhesymau dros dueddiadau'r boblogaeth.
 - h. Argymhellir cyfuniad o ddulliau demograffig a genetig i asesu dirywiad yn y boblogaeth a llywio ymyriadau, yn enwedig ar gyfer poblogaethau isel iawn.
 - i. Mae asesiad o statws cadwraeth tebyg i un yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn seiliedig ar ddsbarthu, deiliadaeth, digonedd, amrywiadau yn y boblogaeth a data genetig, yn cynnig y rhagolygon gorau ar gyfer gwerthuso statws sewin ac eogiaid yng Nghymru.
5. Mae'r Adroddiad yn trafod mesurau posib i atal difodiant sy'n cynnwys:
- a. Adfer cynefinoedd ac ansawdd amgylcheddol er mwyn caniatáu'r pysgod i fridio a magu'n naturiol a didramgwydd er mwyn cynhyrchu gleisiaid o ansawdd da ar gyfer uchafswm capasiti cludo'r dalgylch.
 - b. Gwneud y mwyaf o gysylltedd naturiol fel y gall pysgod llawn dwf gael mynediad at gynefin silio a helpu a hwyluso gleisiaid i fudo allan i'r môr.
 - c. Gwarchod stoc silio rhag unrhyw ffynonellau ychwanegol o farwoldeb, y tu hwnt i'r marwolaethau arferol, naturiol a brofir gydol y cylch bywyd.
 - d. Cefnogi cynhyrchu drwy fagu artiffisial. Cynghorir yn erbyn hyn, heb ymchwiliad beirniadol trylwyr i achosion y dirywiad a'r camau mwyaf llwyddiannus o fynd i'r afael â nhw.
 - e. Banc genynnau. Gellir defnyddio hwn fel y mesur cadwraeth **olaf un** ond mae angen gosod y nodau hirdymor yn erbyn realiti mynd i'r afael â beth bynnag sydd bron â difodi'r poblogaethau yn llwyr. Y cyd-destun mwyaf amlwg yw newid hinsawdd bydeang hirdymor a allai olygu bod amgylcheddau gogledd yr Iwerydd a dŵr croyw yn anaddas i gynnal poblogaethau eogiaid naturiol.
6. Mae awduron yr Adroddiad yn pwysleisio mai lleihau marwolaethau yn ogystal â gwella cysylltedd cynefinoedd a lleihau llygredd yw'r ffyrdd gorau o gynnal poblogaethau pysgod, a'u galluogi i addasu i newid yn ôl amodau amgylcheddol.
7. Mae arsylwadau'r Adroddiad ar y risgiau a wynebwr gan boblogaethau bach a llai sy'n dirywio yn llawn mor berthnasol i rywogaethau dŵr croyw a daearol eraill yng Nghymru.

8. Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod CNC yn parhau i ddarparu ystod o fesurau i ddiogelu eogiaid a sewin, fel y nodir yn y cynllun gweithredu ([Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynllun Gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru 2020](#)).

Cyfleoedd i drafod

9. Gofynnir i'r Bwrdd bwysu a mesur y canlynol o safbwynt y Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Lles newydd:
- Defnyddio'r risg o ddifodiant yr eog i gyfathrebu a meithrin partneriaethau er mwyn tacio'r angen i weithredu ar fyrder ynghylch byd natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd er mwyn diogelu'r rhywogaethau hyn a rhai eiconig eraill a'u cynefinoedd.
 - Gwella ein dealltwriaeth o achosion tranc poblogaethau a'r sbardunau i weithredu yn y dyfodol.
 - Parhau i gyflawni ac addasu'r mesurau yn y cynllun gweithredu ar eogiaid a sewin

Risgiau a chyfleoedd

10. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â mesurau posib yn cynnwys rhai ariannol ac enw da
11. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gweithredu yn cynnwys enw da, economaidd, ac amgylcheddol
12. Er gwaethaf y camau gweithredu, mae perygl o hyd y gallai'r stoc ddiflannu am byth.

Goblygiadau ehangach

13. Goblygiadau ehangach
- Cyllid:**
 - Cost monitro ychwanegol, mesurau rheoleiddio a chynefinoedd;
 - Colli incwm trwy werth llai o drwyddedau pysgota.
 - Cydraddoldeb:** Heb ei ystyried yng nghyd-destun y papur hwn. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r dystiolaeth yn ofodol ac asesu'r cyfleoedd gweithredu yng nghyd-destun data eraill gan gynnwys data cymdeithasol/economaidd.
 - Cyfreithiol:** Rydym yn parhau i weithio gyda'r tîm cyfreithiol i gynghori ar fesur rheoleiddio yn y dyfodol, gan gynnwys dewis arall mwy deinamig ac ymatebol yn lle'r broses is-ddeddfu gyfredol.
 - Diogelu Data:** Amherthnasol
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol newydd a'n Hamcanion Llesiant: Adferiad natur; Gallu cymunedau i wrthsefyll newid hinsawdd; a Lleihau Llygredd.

Y camau nesaf

14. Bydd CNC yn cyhoeddi'r Adroddiad ac yn dilyn y cynllun cyfathrebu.

15. Byddwn yn parhau i weithredu'r mesurau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Eogiaid a Sewin, gan gynnwys camau i wella cynefinoedd drwy'r rhaglen Argyfwng Hinsawdd a Natur (NACE).
16. Ar hyn o bryd rydym yn ailfodelu ein data eogiaid ifanc i ddeall yn well a yw marwoldeb dŵr croyw yn llywio'r dirywiad ac yn gweithio gyda phartneriaid i ail-flaenoriaethu camau gweithredu.
17. Byddwn yn ystyried rhaglenni monitro genetig posibl er mwyn helpu i bennu trothwyon critigol a statws stoc

Argymhelliad

18. Y Bwrdd i nodi'r goblygiadau ar yr Adroddiad a chefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau arfaethedig.

Mynegai Atodiadau

Unrhyw wybodaeth ategol:

Atodiad 1 – Adroddiad Rhif 674 * (DRAFFT)

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mawrth 2023
Teitl y Papur:	Dangoswrdd Perfformiad Cynllun Busnes 2022-23 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol 2022/23
Cyfeirnod y Papur:	23-03-B14
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Paratowyd y Papur gan:	Caroline Hawkins, (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol)
Cyflwynir y Papur gan:	Y Tîm Gweithredol
Diben y Papur	Craffu
Crynodeb	<p>Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer trydydd chwarter 2022/23 ac ystyried yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">Y cynnydd yn erbyn pob mesur a adroddwyd ar Ddangoswrdd Perfformiad y Cynllun BusnesY cynnydd yn erbyn pob mesur a adroddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad Mewnol

Cefndir

- Dangoswrdd Perfformiad y Cynllun Busnes yw un o brif ddulliau'r Bwrdd o graffu ar waith cyflawni. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Busnes 2022/23 gan weithio gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol (ET) a'r Grŵp Tîm Arwain (LTG). Mae'r Cynllun Busnes blynyddol yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol hyd at fis Mawrth 2023; bydd ein Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023.
- Mae'r Dangoswrdd Perfformiad Chwarter 3 (Ch3) wedi'i rannu gyda LTG sydd wedi cadarnhau'r cynnwys terfynol ar gyfer y chwarter hwn a'r sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd blwyddyn.
- Gallwch weld Adroddiad Perfformiad Dangoswrdd y Cynllun Busnes yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys:

- **Dangosfwrdd** sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2022/23 wedi'i osod yn ôl y blaenoriaethau strategol a adlewyrchir yn ein Cynllun Busnes.
 - **Mynegai pynciau** a nodir yn ôl blaenoriaeth strategol i helpu i lywio'r adroddiad.
 - **Crynodeb ar gyfer pob Pwnc** sy'n adlewyrchu cynnydd ar draws y maes gwaith.
 - **Manylion ar gyfer pob mesur penodol** gyda'r sefyllfa diwedd blwyddyn.
4. Mae'r Adroddiad Perfformiad Mewnol ar gael yn Atodiad 2 ac mae'n cynnwys 11 o fesurau sy'n canolbwyntio'n fewnol.

Asesiad

5. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailwampio ein proses recriwtio ac i gyflawni'r her o recriwtio staff i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein mesurau. Mae ein cyfradd swyddi gwag yn parhau ar 11% ar gyfer Chwarter 3, ond rydym wedi llwyddo i recriwtio i nifer o rolau sydd wedi gwella ein perfformiad ar gyfer rhai mesurau yn Ch3.
6. Mae gwaith i ailwampio ein proses recriwtio yn radical drwy dechnoleg ac ail-beiriannu prosesau yn mynd rhagddo'n dda ynghyd â newidiadau i bennu cyfleoedd am leoliadau, lleihau'r ddibyniaeth ar benodiadau tymor penodol a sut rydym yn hyrwyddo manteision gweithio i CNC. Bydd y ffocws newydd hwn yn cael ei ategu gan arbenigwr Caffael Talent newydd, a fydd â'r dasg o fwrw golwg fwy strategol ar ein gofynion a'n harferion recriwtio sefydliadol. Rydym yn diweddarau'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (CSP) (y Pwyllgor Pobl a Thaliadau, PaRC, gynt) yn rheolaidd wrth ddatblygu a gweithredu ein Rhaglen Trawsnewid Pobl, gan gynnwys y llifoedd gwaith sy'n ymwneud â recriwtio.
7. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes, gan nodi'r prif faterion isod. Ceir rhagor o fanylion yn yr adrodd ei hun (Atodiad 1):

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehafin 2022)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf i 30 Medi 2022)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022)	Diwedd y flwyddyn ddisgwyliedig (hyd at 31 Mawrth 2023)
Coch	1	2	2	2
Amh	1	0	1	0
Oren	6	12	12	11
Gwyrdd	23	17	16	18
Cyfanswm	31	31	31	31

8. Mae dau fesur yn **Goch**. Y rhain yw:
- **Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMPs)**

Ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn yw cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd erbyn diwedd Ch3. Mae'r FRMPs wedi'u drafftio ac yn dilyn ymgynghoriad mewnol helaeth ac adborth gan y Tîm Gweithredol, mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i gynnwys y cynlluniau arfaethedig er mwyn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Mae'r gwaith ychwanegol hwn wedi golygu nad ydym wedi gallu cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad allanol ond eto'n troi'r mesur ar gyfer Ch3 Coch. Byddwn yn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad allanol yn Ch4 (Chwefror) ac ar ôl i ni ystyried yr adborth, byddant yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl yn chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y mesur hwn yn Goch ar ddiwedd y flwyddyn gan nad ydym wedi llwyddo i gyflwyno'r cynlluniau mewn da bryd.

- **Cyflawni rhaglenni i adolygu gofynion statudol ansawdd dŵr**

Ein cerrig milltir ar gyfer y mesur hwn yw cwblhau dogfennau Cymru ar Gynllun Rheoli Terfynol Basn Afon Hafren i'w llofnodi gan y Gweinidog, a chwblhau ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru (LIC) ar yr Adolygiad Maethynnau a'r Adolygiad o Driniaeth Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTR). Rydym wedi cwblhau'r garreg filltir gyntaf a chyhoeddi Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren, sy'n cwblhau'r set i Gymru. Mae ein gwaith gyda charreg filltir dau wedi'i ohirio oherwydd gwaith Sicrwydd Ansawdd yn CNC sy'n pwysleisio'r angen i gynnal dadansoddiad pellach o'r setiau data i sicrhau a gwella'r hyder mewn allbynnau, a pha mor hawdd yw eu defnyddio. Mae'r UWWTR yn mynd rhagddynt a byddant yn mynd gerbron Byrddau Busnes a Llywodraeth Cymru yn Ch4. Mae'r gwaith pellach ar yr Adolygiad Maethynnau yn golygu ein bod ni'n disgwyl bod mewn mesur Coch ar ddiwedd y flwyddyn.

9. O'r deuddeg mesur **Oren**, y rhai i'w nodi yw:

- **Helpu i gyflawni argymhellion a gweithredoedd archwiliad dwfn Ynni Adnewyddadwy**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw bwrw ymlaen â chymau gweithredu archwiliad dwfn CNC. Rydym wedi cwblhau'r adolygiad o anghenion adnoddau ac wedi darparu'r wybodaeth berthnasol i Lywodraeth Cymru. Hefyd, rydym wedi cefnogi a rhoi cyngor yn yr adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o drwyddedu, cydsynio a phrosesu cynghori morol ac wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar anghenion ac opsiynau adnoddau morol er mwyn cefnogi gwasanaethau cydsynio a chynghori. Mae trosglwyddo swyddogaethau Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn mynd yn ei flaen ac rydym ar fin gorffen trosglwyddo cyfrifoldeb gyda Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio ar ein camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau'n rhannol ac yn disgwyl cwblhau'r gwaith ar fylchau mewn tystiolaeth ddaearol a pharhau i drosglwyddo swyddogaethau o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn Ch4. Rydym yn disgwyl bod yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r llwybr at fesur Gwyrdd yn dibynnu ar benderfyniadau ar ofynion adnoddau a chymau gweithredu Llywodraeth Cymru.

- **Ailwmapio ein rhwydwaith monitro ansawdd dŵr croyw yn llwyr**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw datblygu Cynllun Gweithredu. Rydym wedi llwyddo i recriwtio Swyddog Arweiniol ac wedi diwygio ein cynllun ar gyfer ailwampio'r rhwydwaith monitro ansawdd dŵr croyw. Rydym wedi aildrefnu cynllun y prosiect a bellach yn bwriadu cyflawni'r holl gerrig milltir erbyn diwedd Ch4. Bydd y mesur yn Oren erbyn diwedd y flwyddyn, gyda cherrig milltir prosiect dilynol yn cael eu cyflawni hyd at fis Ionawr 2025.

- **CNC yn symud ymlaen ar gamau cyflawni allweddol ar gyfer Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cytuno ar Raglen Monitro a Thystiolaeth a datblygu cyngor ar fesurau lliniaru niwtral o ran maethynnau. Rydym wedi cytuno ar raglen fonitro ar gyfer 2023 a fydd yn sicrhau set ddata lawnach ar gyfer yr asesiad cydymffurfio ansawdd dŵr nesaf yn 2024. Rydym wedi datblygu a chyhoeddi ein Hegwyddorion Niwtraliaeth o ran Maethynnau a chyhoeddi cyfres ddrafft o fesurau lliniaru posibl. Mae oedi cyn sefydlu'r Byrddau Rheoli Maethynnau yn golygu y bydd gennym statws Oren ar ddiwedd y flwyddyn.

- **Cynnydd ein gwaith i leihau llygredd o fwyngloddiau metel**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw darparu diweddariad cynnydd tuag at darged Ch4 sy'n dangos nifer yr asesiadau, dyluniadau, treialon ac adeiladweithiau sydd ar y gweill a'u cwblhau. Yn Ch3, fe wnaethom ni gwblhau'r dyluniad manwl ar gyfer gwaith atal ffrwydradau ym mwynglawdd Cwm Rheidol, cwblhau'r gwaith adeiladu ar sianel Rheoli Dŵr Wyneb y Gogledd a Fron-goch, lle rydym hefyd wedi gosod ffensys diogelwch yn y pyllau. Mae'r mesur hwn yn Oren (wedi cyflawni 29 allbwn yn erbyn targed Ch3 o 32, neu 91%). Rydym yn disgwyl bod yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn, gyda 36 o allbynnau wedi'u cyflawni eleni yn erbyn targed Ch4 o 43 o allbynnau asesu, dylunio ac adeiladu. Mae hyn yn 80% o'r rhaglen eleni, a dwywaith lefel allbynnau rhaglenni'r llynedd.

10. Mae 16 o fesurau sy'n **Wyrdd** yn Ch3. Dyma rai i'w nodi:

- **Datblygu fflyd o gerbydau allyriadau isel a darparu ystâd adeiledig allyriadau isel ac sydd wedi'i haddasu i'r hinsawdd.**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cyflawni'r cyntaf o argymhellion cymeradwy'r Strategaeth Llety. Rydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn, a oedd yn cynnwys cau ein swyddfa yn Llys Cantref, y Fenni. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu Cyfle Caerdydd gan gynnwys datblygu briff prosiect, gofyn am gymeradwyaeth y Tîm Gweithredol, a dechrau ymgynghori â staff. Symudodd y mesur hwn o Oren yn Ch2 i Wyrdd yn Ch3. Fodd bynnag, mae salwch staff wedi golygu na fyddwn yn gallu cyflawni ein holl gerrig milltir, ac erbyn hyn, rydym yn disgwyl bod yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn.

- **Cyflawni camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau sy'n prnhau neu ar fin diflannu**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cytuno ar raglen waith i gyflawni gweithredoedd CNC o fewn Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir. Rydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi recriwtio Ymgynghorydd Arbenigol, Adfer Rhywogaethau Daearol sy'n ymroi i adfer y gylfinir a nodweddion di-asgwrn-cefn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Rydym wedi cytuno ar gynllun gwaith ar gyfer camau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys y bydd CNC yn arweinydd sefydliadol ar gyfer dwy Ardal Bwysig i'r Gylfinir. Mae recriwtio i'r

rolau hyn wedi golygu bod y mesur hwn wedi symud o Goch yn Ch2 i Wyrdd yn Ch3 ac rydym yn disgwyl iddo aros yn Wyrdd yn Ch4.

11. Nid yw un mesur wedi cael sgôr Coch Oren Gwyrdd (RAG) yn Ch3:

- **Gwaith i osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cyfrannu at ddatblygu Polisi Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, gan fwydo ein hasesiad o weithredu'r Polisi CNC cyntaf. Nid ydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn oherwydd bod yr amserlenni ar gyfer datblygu ail Bolisi Adnoddau Naturiol wedi newid. Felly, nid yw perfformiad y chwarter hwn wedi cael statws RAG. Ar hyn o bryd rydym ar y trywydd iawn i gyflawni gweithgaredd carreg filltir wedi'i haddasu ar ddefnyddio Datganiadau Ardal yn Asesiadau Llesiant a Chynlluniau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs), i'w llofnodi gan Fwrdd CNC yn Ch4. Rydym yn disgwyl y byddwn yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

12. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr Adroddiad Perfformiad Mewnol, gan nodi'r prif faterion isod. Mae manylion pellach ar gael yn Atodiad 2.

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehefin 2022)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf i 30 Medi 2022)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022)	Diwedd y flwyddyn ddisgwyliedig (31 Mawrth 2023)
Coch	1	1	3	1
Oren	5	3	1	2
Gwyrdd	5	7	7	8
Cyfanswm	11	11	11	11

13. Isod gwelir y mesurau i'w nodi ar gyfer Ch3. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at Atodiad 2.

- Mae adroddiadau **Monitro Gweithredol** yn parhau i fod yn Goch ar gyfer Ch3. Rydym wedi profi dau dempled monitro gweithredol pwrpasol ar gyfer Gweithrediadau a Heb fod yn Weithrediadau i'w lansio yn Ch4. Bydd y gwaith o gofnodi'r gwaith monitro gweithredol nawr yn cael ei wneud ar system AssessNET lechyd a Diogelwch a Llesiant. O 1 Ebrill 2023 bydd yr holl adroddiadau monitro gweithredol yn cael eu storio ar system AssessNET, a fydd yn galluogi staff i wneud gwaith monitro gweithredol ar y safle trwy eu ffonau symudol gan helpu i ddadansoddi tueddiadau. Bydd gan bob cyfarwyddiaeth darged penodol ar gyfer cyflawni adroddiadau monitro gweithredol y bydd rhaid ei gyflawni. Byddwn yn parhau i godi proffil y gwaith hwn, a thrwy Ch4 rydym yn annog rheolwyr i siarad â'u staff am fonitro gweithredol. Disgwylir i'r maes hwn fod yn Goch ar ddiwedd y flwyddyn, ond bydd newid eang i'r ffordd rydym yn hyrwyddo ac yn rheoli'r gwaith pwysig hwn o fis Ebrill ymlaen, yn unol â'r adroddiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol nesaf.

- Mae **adroddiadau lechyd a Diogelwch am ddamweiniau fu bron â digwydd** yn Goch ar gyfer Ch3 gyda gostyngiad yn yr adroddiadau am ddamweiniau fu bron â digwydd o'i gymharu â'r llynedd (byddai Gwyrdd yn adlewyrchu nifer uwch o'r adroddiadau hyn). Byddwn yn parhau i godi proffil y gwaith hwn drwy ddiweddariadau, arweiniad ac e-byst misol rheolwyr at bob uwch-reolwr ac arweinydd tîm. Gydol Ch4, bydd rheolwyr allan gyda'u staff yn monitro'n weithredol ac yn ategu pwysigrwydd adroddiadau am achosion/damweiniau fu bron â digwydd wrth osgoi digwyddiadau go iawn. Rydym yn disgwyl i'r perfformiad hwn wella gydol Ch4 a gallwn eisoes weld bod adroddiadau wedi cynyddu'n sylweddol ym mis cyntaf Ch4. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn ac yn cynllunio newid sylweddol o ran sut rydym yn hyrwyddo a rheoli'r mesur pwysig hwn o fis Ebrill ymlaen yn unol â gwaith adrodd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol newydd.
- Mae **absenoldebau** wedi symud i Goch gyda chyfraddau uwch o absenoldeb ar draws yr holl gyfarwyddiaethau yn ail hanner Ch3. Mae cynllun gweithredu wedi'i sefydlu ar absenoldeb oherwydd salwch, er mwyn rhoi cymorth. Ar hyn o bryd mae disgwyl statws Oren ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae'r **ceisiadau Mynediad at Wybodaeth** yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod yn parhau'n Wyrdd ar ddiwedd Ch3. Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, cawsom nifer fawr o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth cymhleth, a effeithiodd ar allu'r tîm i ymateb i geisiadau eraill. Fodd bynnag, fe wnaeth y tîm fynychu hyfforddiant ffurfiol, tynhau prosesau a chodi ymwybyddiaeth sefydliadol ac mae disgwyl i'r statws fod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn erbyn hyn.
- Mae **perfformiad taliadau** i'n cyflenwyr yn Wyrdd ar ddiwedd Ch3, sy'n welliant pellach ers Ch2. Mae ymdrech ar y cyd yn cael ei gwneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed o 95%, a gwella prosesu o fewn deg diwrnod. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

Risgiau a chyfleoedd

14. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchu'n gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Busnes, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cwblhau ei rôl o graffu ar waith cyflawni Cyfoeth Naturiol Cymru.

Goblygiadau ehangach

- (a) **Cyllid:** Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol o ran darparu'r adroddiad perfformiad ei hun; fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhan o'n hadolygiad chwarterol yn ystyried dyrannu ein hadnoddau ac mae ein papurau cyllid a pherfformiad felly yn berthnasol iawn.
- (b) **Cydraddoldeb:** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol yn cwmpasu ein Datganiad Lles, Cynllun Busnes 2022/23 a'r Cynllun Corfforaethol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

Y camau nesaf

